engage Cymru

# Gwerthusiad Prosiect Momentum

*"Mae hwn wedi bod yn brosiect gwych a dydyn ni ddim erioed wedi gweld dim byd tebyg i'r newid yn y ddwy ferch".* (gweithiwr ieuenctid YMCA, prosiect Oriel Gelf Glynn Vivian)

*"Roedd adeiladu'r gysgodfa yn cynnig nid yn unig ffordd gadarnhaol o ymgysylltu drwy weithio gyda'r pedwar person ifanc ond hefyd, heb iddyn nhw sylweddoli, llwyddon nhw i ennill sgiliau a phrofiadau newydd y bydden nhw wedi ymwrthod â nhw o bosib mewn lleoliad mwy ffurfiol".* (Partner allanol, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"…mae presenoldeb yn yr ysgol wedi gwella. Mae wedi cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn, fydd yn cael ei adlewyrchu yn ei gradd derfynol ar ddiwedd blwyddyn 11*" (Athro, prosiect Oriel Myrddin)

*"Roedden nhw'n gallu dechrau gweld cysylltiad rhwng sgiliau ymarferol a gwaith/gyrfa"* (Artist y prosiect, Oriel Myrddin)

**Kirsten Gibbs**

**Awst, 2014**

engage in the visual arts

## Cynnwys


**1. Trosolwg o'r Prosiect**

1a. Recriwtio pobl ifanc i'r prosiect

1b. Partneriaeth gyda Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid eriall

1c. Ymyriadau

1d. Canlyniadau diriaethol a thystiolaeth

1e. Canlyniadau meddal a thystiolaeth

1f. Canlyniadau annisgwyl

1g. Pwyntiau dysgu

**2. Astudiaethau Achos: Prosiectau unigol a theithiau'r bobl ifanc**

**Prosiectau Ymyrraeth Gynnar**

2a. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy / Gwasanaethau Ieuenctid Conwy, Ysgol y Creuddyn: Taith Harris

2b. Cyngor Sir Ddinbych / Chymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl (RAPA): Taith Eli

2c. Oriel Myrddin / Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan y Gors: Taith Sari a Lizzy

2d. Oriel Myrddin / Uned Cyfeirio Disgyblion Ysgol Rhydygors: Taith Aaron

**3. Astudiaethau Achos: Prosiectau unigol a theithiau'r bobl ifanc**

**Prosiectau Ymgysylltu ag Ieuenctid**

3a. Oriel Glyn Vivian / Gwasanaethau Ieuenctid Abertawe, YMCA: Taith Lisette

3b. Oriel Glynn Vivian / Foyer

## 1. Trosolwg o'r Prosiect

Momentum yw rhaglen gan Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n olynu Cyrraedd y Nod, mewn partneriaeth gyda Cymunedau yn Gyntaf. Ceir dau gam i raglen Momentum: mae Cam Un (a werthusir yn yr adroddiad hwn) wedi bod yn gynllun peilot tymor byr â'r nod o gyflwyno ymyriadau celfyddydol gyda set ddiwygiedig o ganlyniadau, gan weithio gyda grwpiau llai o bobl ifanc a chynnig ymyriadau celfyddydol dwys i ddangos a thystio i newid cadarnhaol sylweddol i'r cyfranogwyr. engage Cymru oedd un o'r deuddeg sefydliad llwyddiannus yng Nghymru i dderbyn cyllid i gyflawni Momentum.

Cynhaliwyd prosiectau Momentum engage Cymru rhwng mis Mawrth a mis Medi 2014. Adeiladwyd ar waith blaenorol llwyddiannus gyda phobl ifanc anodd eu cyrraedd neu agored i niwed, gan gynnwys Cyrraedd y Nod ac Orielau a Phobl Ifanc. Bu pedwar o bartneriaid oriel neu awdurdod lleol - Cyngor Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin ac Oriel Glynn Vivian yn Abertawe - yn gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf, chwe phartner allanol, pum artist prosiect a chwe grŵp o bobl ifanc. Cyfranogodd 46 o bobl ifanc yn y prosiectau, gyda 22 yn cwblhau gwaith ar gyfer Arts Award ar lefel Explore neu Efydd - gan wneud yn well na nod gwreiddiol engage Cymru o gyrraedd 17 o bobl ifanc.

Roedd prosiectau blaenorol gan engage Cymru yn cynorthwyo pobl ifanc agored i niwed i ail-ymgysylltu â dysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth drwy brosiectau celf oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau meddal neu gymdeithasol: gwell cyfathrebu, sgiliau gwaith tîm, presenoldeb a chwblhau tasgau, yn ogystal â chynyddu cymhelliant, hunanhyder ac uchelgais. Roedd canlyniadau dysgu caled y prosiect yn cynnwys gwell llythrennedd, rhifedd a sgiliau technoleg gwybodaeth, fodd bynnag canlyniadau annisgwyl oedd y rhain yn hytrach na nodau penodol i'r prosiectau. Fodd bynnag gyda Momentum, canlyniadau dysgu caled oedd y prif ffocws - yn arbennig i sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni cymhwyster cydnabyddedig. Dewisodd engage Cymru Arts Award, cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n cael ei redeg gan Trinity College yn Llundain,ac sy'n galluogi pobl ifanc i symud ymlaen at addysg bellach a chyflogaeth. Mae lefelau Explore, Efydd, Arian ac Aur Arts Award yn gymwysterau achrededig ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Mae Arts Award Discover (nad oedd yn rhan o'r prosiect hwn) yn lefel rhagarweiniol[1]. Gall pobl ifanc hyd at 25 oed gyflawni Arts Award. Mae'n addas i bob gallu ac mae wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus gyda phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig[2].

Dechreuodd gwaith Momentum gyda'r rheolwyr prosiect, artistiaid, gwerthuswr a Chydlynydd engage Cymru yn ymgymryd â hyfforddiant Ymgynghorydd Arts Award ar lefel Discover, Explore, Efydd ac Arian. Roedd hyn yn sicrhau bod tîm y prosiect yn cael cyflwyniad cadarn i Arts Award, gyda'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer cynorthwyo'r bobl ifanc i gyflawni hyn.

## 1a. Recriwtio pobl ifanc i'r prosiect

Nod prosiectau engage Cymru Momentum oedd ymgysylltu â 17 o bobl ifanc: deg yn Ffrwd Un, Ymyrraeth Gynnar (i bobl ifanc 11-16 oed), a saith yn Ymgysylltu ag leuenctid

[1] I gael rhagor o wybodaeth am Arts Award, ewch i http://www.artsaward.org.uk
[2] Gweler http://www.artsaward.org.uk/site/?id=2127&action=preview&backTo=index

(i bobl ifanc 16-18 oed). Gwnaed yn well na'r targed hwn gyda 46 o bobl ifanc yn cyfranogi mewn o leiaf rai elfennau o'r rhaglen: 19 yn y ffrwd Ymyrraeth Gynnar (Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Oriel Myrddin) a 27 gydag Ymgysylltu ag Ieuenctid (Oriel Glynn Vivian). O'r rhain, cwblhaodd 16 o bobl ifanc yn y ffrwd Ymyrraeth Gynnar y gwaith oedd ei angen ar gyfer Arts Award Explore a chwblhaodd chwech o'r bobl ifanc y gwaith oedd ei angen ar gyfer Arts Award Efydd yn ffrwd Ymgysylltu ag Ieuenctid. (Gweithiodd dau berson ifanc ychwanegol tuag at Arts Award ym mhrosiect Oriel Glynn Vivian, ond yn anffodus ni lwyddon nhw i fynychu i gwblhau'r prosiect.)

Cafodd y cyswllt cyntaf ei wneud gyda Cymunedau yn Gyntaf gan Gydlynydd engage Cymru a chan y partneriaid oriel / awdurdod lleol, oedd i gyd yn brofiadol yn datblygu partneriaethau allanol. Bu rhai prosiectau yn gweithio gyda phartneriaid blaenorol neu gyfredol a bu rhai'n gweithio gyda rhai newydd. Yn y mwyafrif o achosion y partner allanol oedd yn recriwtio'r bobl ifanc i'r prosiect.

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf, Gwasanaethau Ieuenctid Conwy ac Ysgol y Creuddyn. Cynorthwyodd Cymunedau yn Gyntaf y gwaith recriwtio drwy'r Gwasanaethau Addysg, fodd bynnag ar y dechrau roedd yn anodd dod o hyd i bobl ifanc oedd yn diwallu'r meini prawf cymhwyster y prosiect.

*"Daeth ymholiadau gan 2 neu 3 o bobl ifanc nad oedden nhw'n diwallu'r meini prawf ac roedd yn anodd iawn eu troi i ffwrdd. Cefais i alwad hyd yn oed gan Gynghorydd Personol Canolfan Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd yn cynnig gŵr ifanc 18+ oed oedd yn awyddus i ymuno â'r rhaglen ac oedd yn NEET ond oedd yn rhy hen i'r cynllun hwn. Dywedais i wrtho y gallai fod cynllun yn y dyfodol o bosibl wedi'i anelu at 'ffyrdd i mewn i waith / hyfforddiant' ac os byddwn ni'n ymwneud â hwn, y byddwn i'n trosglwyddo'r wybodaeth."* (rheolwr prosiect Conwy)

Bu Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda Chymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl (RAPA), a recriwtiodd y bobl ifanc: tri brawd a phedwerydd bachgen.

*"Roedd RAPA'n awyddus i gymryd rhan o'r dechrau ac ar unwaith roedden nhw'n gallu dynodi pobl ifanc a fyddai'n elwa'n fawr ar gyfranogi. Cysylltwyd yn uniongyrchol gyda theuluoedd y bobl ifanc a gyda'r ysgol uwchradd yr oedd y bechgyn yn ei mynychu, a threfnu iddyn nhw fynychu'r sesiynau un bore'r wythnos. Gwnaethon nhw'n siŵr fod y bechgyn yn mynychu'r sesiynau, gan eu casglu o'r ysgol ar y dyddiau perthnasol, a'u dychwelyd ar ôl y sesiynau. Roedd un neu ddau aelod o RAPA hefyd yn bresennol ym mhob sesiwn, gan sicrhau bod y mesurau diogelwch perthnasol yn weithredol ac nad oedd yr artist na'r cyfranogwyr yn cael eu gosod mewn sefyllfa fregus yn ystod y prosiect."* (Cydlynydd y prosiect, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

Bu Oriel Myrddin yn gweithio gyda dwy ysgol arbennig, Ysgol Rhydygors a Chanolfan y Gors. Roedd hon yn bartneriaeth gref oedd wedi'i hen sefydlu, gyda'r ysgolion a hefyd gydag athro unigol, a argymhellodd bedwar bachgen a phum merch ar gyfer dau brosiect ar wahân.

Bu Oriel Glynn Vivian yn gweithio gyda Gwasanaethau Ieuenctid Abertawe, YMCA, a Foyer, prosiect i bobl ifanc ddigartref yn Abertawe. Hwn oedd y prosiect mwyaf anodd o ran recriwtio cyfranogwyr - efallai am fod y bobl ifanc hyn eisoes wedi gadael yr ysgol, ac, mewn nifer o achosion, am nad oedden nhw'n byw mewn amgylchedd sefydlog

a/neu yn cael cyswllt ysbeidiol yn unig gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid. Roedd y rheolwr prosiect hefyd yn canfod nad oedd yr arweinwyr ieuenctid yn ymateb i negeseuon ebost na galwadau ffôn. Argymhellwyd rhai pobl ifanc i'r prosiect - ond mewn rhai achosion gwnaed hyn drwy basio manylion cyswllt, gydag oblygiadau amlwg o ran materion diogelu. Mae'n fwy rhyfeddol fyth felly fod wyth o bobl ifanc yn y prosiectau yn Oriel Glynn Vivian wedi cyflawni Arts Award ar lefel Efydd.

*"Un o'r pethau calonogol yn ddiddorol oedd bod y bobl ifanc a fynychodd yn dod â phobl ifanc eraill gyda nhw, neu drwy eu brwdfrydedd am y cwrs, daeth rhai eraill. Wrth gwrs gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod dod â phobl eraill yn dod â chymorth ychwanegol iddyn nhw ac yn eu caniatáu i rannu mewn amgylchedd roedd ganddyn nhw rywfaint o reolaeth drosto."* (Rheolwr prosiect, prosiect Oriel Glynn Vivian)

### 1b. Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaethau eraill

Bu'r holl brosiectau'n gweithio gyda sefydliadau sy'n rhan o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardal.

*"Roedd Cymunedau yn Gyntaf yn wych ac yn gymorth enfawr..."* (partner Conwy)

*"Roedd ein partneriaeth gyda Marc James yn Ysgol y Creuddyn yn gweithio'n dda iawn… Roedd yn gymorth arbennig gyda'r trafferthion gyda Mam Samantha, gan ddod â'i gweithiwr cymdeithasol i mewn ar unwaith ac roedd yn deg gyda'r canlyniadau ….Roedd yn wych gyda'r merched ac yn gefnogol iawn i'r prosiect yn gyffredinol gan fynychu bron iawn pob sesiwn i'w gollwng a'u codi ar y diwedd."* (Artist, prosiect Conwy / Oriel Mostyn)

*"Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau (Sir Ddinbych) wedi gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf a RAPA sawl tro yn y gorffennol, gan gyflawni prosiectau celf o ansawdd uchel i bobl ifanc ddifreintiedig, anodd eu cyrraedd. Cafodd Cymunedau yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Celfyddydau'r wybodaeth am Momentum yr un diwrnod. Cysylltodd rheolwr Cymunedau yn Gyntaf â'r Gwasanaeth Celfyddydau ar unwaith i drafod cydweithio ac yn dilyn hyn cafwyd cyfarfod a thrafodaethau pellach… Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda oherwydd y cyfathrebu da sydd wedi bod rhwng pawb … ac mae perthynas RAPA gydag ysgolion y bechgyn wedi bod yn ddefnyddiol ac yn gwasanaethu'r prosiect yn dda."* (Cydlynydd y prosiect, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Roedd Cymunedau yn Gyntaf yn ymwneud â dethol a chysylltu â'r partneriaid allanol ac yn dilyn hynny, unwaith i'r prosiect ddechrau, darparu cymorth ariannol ychwanegol i'r partneriaid allanol, oedd â rôl fwy na'r disgwyl. Maen nhw hefyd wedi bod mewn cyfarfod cynnydd lle trafodwyd dyfodol y prosiect gan edrych ar ffyrdd o barhau i gydweithio gyda'r cyfranogwyr."* (Cydlynydd y prosiect, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

Cefnogodd Cymunedau yn Gyntaf gais Oriel Myrddin i gymryd rhan ym mhrosiect Momentum. Adroddodd yr oriel i reolwr clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin a chasglu data cod post ar ran Cymunedau yn Gyntaf.

*"Roedd agwedd gadarnhaol a chefnogaeth ar gyfer y prosiect … yn enwedig y cyngor gyrfaoedd a'r cymwysterau oedd ar gael. Gadawodd Cymunedau yn Gyntaf i'r oriel fynd*

*yn eu blaen gyda'r prosiect ac roedden nhw'n hapus bod proses werthuso drylwyr engage yn ddigonol (i'w hanghenion nhw hefyd)."* (Rheolwr prosiect, Oriel Myrddin)

Roedd Oriel Glynn Vivian yn ei chael yn anodd gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y rheolwr prosiect a'r artist arweiniol yn teimlo y gallai fod yn fwy llwyddiannus pe baen nhw wedi ymweld â lleoliadau oedd yn canolbwyntio ar ieuenctid ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn bersonol i drafod y prosiect a dangos sut roedd yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau.

Ond unwaith i'r YMCA ddod yn rhan o'r prosiect, symudodd yn ei flaen yn dda.

*"Oherwydd ein partneriaeth gyda'r YMCA, roeddwn i'n teimlo bod y bobl ifanc yn ymddiried ynom ni heb i ni orfod gwerthu Glynn Vivian na'r prosiect iddyn nhw."* (Rheolwr prosiect, Oriel Glynn Vivian)

## 1c. Ymyriadau

Mae prosiectau blaenorol engage Cymru wedi dangos bod amrywiaeth o ffurfiau celfyddydol yn gallu ennyn diddordeb pobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd, neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ffactorau mwy pwysig yw i artist y prosiect ddatblygu perthynas gyda'r bobl ifanc sy'n caniatáu iddo neu iddi ddysgu beth yw diddordebau'r bobl ifanc (er enghraifft: teulu, chwaraeon, enwogrwydd, ceir, eu hamgylchedd lleol), ac yna gweithio gyda ffurf gelfyddydol (yn aml y ffurf mae artist y prosiect yn ei defnyddio) i ddatblygu'r diddordebau hynny i greu prosiect sy'n cymell ac yn estyn y cyfranogwyr.

Ymhlith y ffurfiau celf a archwiliwyd yn y prosiectau Momentum oedd gwaith print, cerflunwaith, ffotograffiaeth, gwneud ffilmiau, gwaith metel, paent, animeiddio stop-symudiad a GIF, lluniadu, tecstilau, pwytho, cyfosod a mewnosod.

Cafodd Prosiect Sir Ddinbych / RAPA broblemau ar y dechrau gyda phresenoldeb ac ymddygiad a olygodd fod yr artist yn dod â'r sesiynau i ben yn gynnar am nad oedd gan y bechgyn y ffocws, stamina na'r gallu i dalu sylw am y cyfnod a neilltuwyd. Yn wythnos pedwar, canfu'r artist, oedd yn ffotograffydd a gwneuthurwr ffilmiau, fod gan y bechgyn ddiddordeb mewn gwneud 'dens'. Gan weithio gyda'r bechgyn a'u gweithiwr ieuenctid, datblygodd hyn i greu prosiect yn seiliedig ar ddelweddau ar thema 'cysgod'. Gwellodd presenoldeb ac ymddygiad y bechgyn, ynghyd â'u gallu i ganolbwyntio, eu gallu i weithio yn annibynnol neu fel tîm a'u brwdfrydedd cyffredinol i'r graddau iddyn nhw ddechrau gweithio'n wirfoddol drwy eu cyfnodau egwyl, doedden nhw ddim am adael ar ddiwedd pob sesiwn, ac aethon nhw ati i weithio yn eu hamser eu hunain hyd yn oed.

Ym mhrosiectau Oriel Myrddin, cadwodd y profiad o weithio mewn gefail gyda gof proffesiynol sylw'r holl bobl ifanc; mae dau fachgen wedi mynd yn eu blaen i ymgeisio am lefydd mewn coleg i astudio adeiladu o ganlyniad.

Gwelwyd canlyniadau cymaradwy yn y prosiectau eraill – gweler yr astudiaethau achos unigol am ragor o wybodaeth.

## 1d. Canlyniadau diriaethol a thystiolaeth

Fel gyda phrosiectau blaenorol engage, cyflawnodd y bobl ifanc amrywiaeth o ganlyniadau dysgu diriaethol a meddal. Sylwyd ar y rhain a'u cofnodi gan yr artistiaid prosiect a'r partneriaid allanol (e.e. athro neu weithiwr cymorth y person ifanc), a'u dynodi gan y bobl ifanc eu hunain. Gan fod y bobl ifanc yn gweithio at gymhwyster ffurfiol, achrededig (Arts Award ar lefel Explore neu Efydd), mae eu cyflawniadau hefyd wedi cael (neu wrthi yn cael) eu dilysu'n allanol.

Roedd yr artistiaid prosiect yn cadw cofnod oedd yn cael ei gwblhau ar ôl pob sesiwn, gan gofnodi'r hyn oedd wedi digwydd yn ystod y sesiwn, tystiolaeth o gyflawniad y bobl ifanc unigol mewn meysydd dysgu diriaethol a meddal, a hefyd meysydd o bryder i'w dilyn. Caiff dyfyniadau artistiaid eu cynnwys yn y dystiolaeth isod a hefyd yn yr adran 'canlyniadau meddal' sy'n dilyn.

Gofynnwyd i athrawon neu weithwyr cymorth y bobl ifanc i asesu galluoedd y cyfranogwyr mewn amrywiaeth o feysydd dysgu diriaethol a meddal ar ddechrau a diwedd y prosiectau Momentum. Ni chwblhaodd yr holl bartneriaid allanol yr asesiadau hyn – mewn rhai achosion am fod y prosiectau'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, ac mewn achosion eraill am nad oedd y partneriaid allanol yn teimlo eu bod yn adnabod y bobl ifanc yn ddigon da i wneud hynny – fodd bynnag cwblhawyd asesiadau dechrau a diwedd prosiect ar gyfer y bobl ifanc mewn tri o'r chwe phrosiect: Oriel Myrddin (naw o bobl ifanc mewn dau brosiect) a Sir Ddinbych (pedwar o bobl ifanc). Cwblhawyd asesiadau hefyd ar ddau gyfranogwr ym mhrosiect Oriel Glynn Vivian YMCA. Mae hyn yn rhoi uchafswm sgôr o 15 i bob maes dysgu diriaethol a meddal, gan gofnodi newidiadau cadarnhaol mewn dros 60% o'r 23 person ifanc a gwblhaodd waith ar gyfer yr Arts Award. Mae'n rhesymol tybio y byddai llwyddiannau tebyg wedi'u cofnodi yn y cyfranogwyr eraill, a cheir tystiolaeth o hyn yng nghofnodion yr artistiaid yn y prosiectau hynny.

Byddai mwy o'r bobl ifanc ym mhrosiectau Oriel Glynn Vivian, yn enwedig prosiect YMCA, wedi gallu cwblhau'r Arts Award, pe bai rhagor o amser ar gael i'r prosiect. Roedd y prosiect Foyer yn cael ei weld fel prosiect blasu, ac mae'n fwriad gan y Rheolwr Prosiect gyflwyno Arts Award mewn prosiect dilynol.

*"Byddwn yn edrych ar… barhau â'r prosiect gyda Foyer fel partner. Roedd natur ansefydlog y lleoliad a'i gleientiaid (pobl ifanc ddigartref) yn golygu bod y prosiect yn anghyson a byddai prosiect hirach yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld..."* (Rheolwr prosiect, Oriel Glynn Vivian)

Roedd artist y prosiect yn Oriel Myrddin yn teimlo y byddai'r bechgyn wedi gallu cyflawni Arts Award Efydd yn ogystal ag Explore ("*mae ganddyn nhw lawer o sgiliau*"), ond y byddai gweinyddu hyn wedi bod yn anodd o fewn amserlen gymharol fyr y prosiect peilot.

Roedd yr holl bobl ifanc yn dangos gwelliant mewn o leiaf un maes dysgu diriaethol (sgiliau llythrennedd, sgiliau TG a sgiliau celf) gyda llawer yn dangos gwelliant ar draws y tri maes. Mewn rhai achosion, lle na nodwyd gwelliant, roedd hynny am fod gan y person ifanc lefel uchel o sgiliau'n barod, er enghraifft technoleg gwybodaeth. Roedd enghreifftiau a nodwyd gan athrawon, gweithwyr ieuenctid a'r artistiaid prosiect yn cynnwys:

**Sgiliau llythrennedd – cofnodwyd gwelliannau ar gyfer 10 o'r 15 o bobl ifanc a aseswyd**

Roedd elfen Arts Award prosiectau Momentum yn cynorthwyo gyda datblygu sgiliau llythrennedd y bobl ifanc. Cynhalion nhw ymchwil i ffurfiau celf ac artistiaid a chofnodi eu canfyddiadau mewn log, naill ai wedi'i ysgrifennu'n gonfensiynol neu drwy borthol ar-lein. Ymchwiliodd dau o'r bechgyn ym mhrosiect Sir Ddinbych artist byw gan lunio ebost i'w anfon ato gyda chwestiynau am ei waith. Bu'r ddau'n asesu eu gwaith eu hunain a'i rannu gydag unigolyn neu grŵp.

*"Mae defnyddio fformatau cyflwyno i ymchwilio a datblygu syniadau yn ystod y prosiect wedi bod yn opsiwn defnyddiol. Mae wedi sicrhau bod profiadau dysgu llythrennedd gwerthfawr wedi digwydd o fewn y prosiect."* (Adborth gan athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

*"Mae defnyddio iPads a phrosesydd geiriau i ymchwilio a dogfennu'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn i'r disgybl hwn. Mae wedi cynhyrchu corff perthnasol iawn o waith ysgrifenedig y gellir ei ddefnyddio at ddibenion asesu yn yr ysgol a ffurfio rhan o bortffolio'r disgybl."* (Adborth gan athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

*"Mae gan y disgybl lefel uchel iawn o allu ac mae nawr yn fodlon ymgysylltu ar ôl ei chael yn anodd ar y dechrau i ddeall y cysylltiad rhwng ei farddoniaeth a chelf."* (Adborth gan athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

*"Roedd Martha yn fynegiannol iawn yn yr oriel pan ofynnon ni i'r grŵp ddewis eu hoff ddarnau o waith. Dewisodd brint bach o ferch oedd yn agor (neu'n cau) bleind ac roedd yn gallu dweud yn glir ei bod yn hoffi'r ffordd roedd yn gwneud i chi feddwl am y stori y tu ôl iddo*." (Adborth gan athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

**Sgiliau TG – cofnodwyd gwelliannau ar gyfer 8 o'r 15 o bobl ifanc a aseswyd**

*"Roeddwn i'n teimlo bod y Prosiect yn wych ar gyfer y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan gan ei fod yn rhoi cyfle iddyn nhw gael profiadau newydd a datblygu sgiliau newydd yn enwedig mewn perthynas â TG yn gysylltiedig â chelf."* (Partner allanol, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Mae gweithio gyda'r iPad yn declyn dysgu hygyrch, sydd wedi caniatáu iddi ddatblygu ei sgiliau TGCh ymhellach yn y dosbarth. Mae defnyddio'r fformat cyflwyno PowerPoint a chreu iBooks wedi cynorthwyo i ddatblygu ei set sgiliau yn y pwnc hwn."* (Athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

**Sgiliau celf / cynhyrchu – cofnodwyd gwelliannau ar gyfer 9 o'r 15 o bobl ifanc a aseswyd**

*"Rydym ni wedi cyrraedd man lle mae'r disgybl hwn yn datblygu ei syniadau. Mae'r prosiect gwneud printiau wedi cael dylanwad cadarnhaol ac wedi caniatáu i'r disgybl weithio'n hyderus gyda siâp a phatrwm. Mae ei baentiadau'n dechrau cysylltu ei farddoniaeth gyda lliw. Mae'n fraint gweld y trawsnewidiad hwn."* (Athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

*"Datblygodd Samantha a Toni sgiliau ffotograffiaeth ar gyfer hunanbortreadau creadigol a gweithiodd Harris ar luniadu yn ei fwrdd stori ar gyfer animeiddio."* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

*"Roedd Eli yn arbennig o hoff o ddefnyddio'r camera DSLR ac roedd yn edrych am ffyrdd gwahanol i'w ddefnyddio."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"I mi y pwynt mwyaf amlwg yw bod adeiladu'r gysgodfa wedi profi nid yn unig yn offeryn ymgysylltu cadarnhaol ar gyfer gweithio gyda'r pedwar person ifanc, ond hefyd, heb iddyn nhw sylweddoli o reidrwydd, roedd yn eu galluogi i ennill sgiliau a phrofiadau newydd y bydden nhw wedi ymwrthod â nhw mewn lleoliad mwy ffurfiol o bosib. Dysgodd y bechgyn sgiliau newydd drwy ddefnyddio camerâu, tabledi a dulliau eraill o gofnodi'r gwaith a wnaed … Roedd y gysgodfa a adeiladwyd yn ddarn o waith llawer yn fwy manwl na'r deniau rydyn ni wedi'u gwneud gyda nhw yn y gorffennol (yn RAPA) ac felly roedd rhaid defnyddio sgiliau echddygol manwl."* (Partner allanol, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Mae'r prosiect wedi dangos i Felicity bod sawl llwybr ar gael mewn Celf a Dylunio a helpodd y prosesau a'r deunyddiau newydd ni i wneud dewisiadau i ganiatáu i ni fynegi ein creadigrwydd. Mae ei hyder yn cynyddu ac mae hi'n fodlon rhoi cynnig ar ei syniadau heb or-feddwl am y canlyniad terfynol. Mae hyn yn caniatáu iddi hi wneud camgymeriadau, sy'n bwysig iawn."* (Adborth athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

*"Ysgrifennodd Lisa rai o'i chryfderau a'i sgiliau: 'lluniadu llygaid a lliw'. Trafodon ni sut y gallai Lisa adeiladu ar hyn drwy wneud hunanbortread. Defnyddiodd bin ar bapur gan ganolbwyntio ar luniadu am tua 30 munud. Hwn oedd yr hunanbortread cyntaf iddi roi cynnig arno oedd yn rhyfeddol oherwydd roedd yn ddarn rhagorol o waith!"* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Glynn Vivian / YMCA)

Mae llythyr gan un o'r bechgyn o Ysgol Rhydygors yn dangos bod y bobl ifanc yn ymwybodol o'r effaith gadarnhaol roedd y prosiect yn ei gael ar eu bywydau: drwy ddysgu sgiliau ymarferol ac adeiladu eu hunanhyder a chodi eu dyheadau.

Annwyl Angharad Pearce Jones,

Roedd fy mhrofiad yn eich gweithdy a'ch gwersi yn odidog ac fe fwynheais i'n fawr. Rwyf i am ddechrau'r llythyr gyda chofnod o'r hyn rwy wedi'i ddysgu yn ystod y digwyddiad.

Rwyf i wedi dysgu sut i blygu bar metel yn hawdd â llaw a gyda gefail a morthwyl. Rwyf i'n bersonol yn mwynhau gwaith fel hyn oherwydd mae'n golygu gwneud rhywbeth ac fe allwn i wneud bywoliaeth fel hyn yn hawdd.

Nawr fe soniaf i am yr offer rwyf i wedi dysgu eu defnyddio a sut i'w defnyddio'n ddiogel. Erbyn hyn rwyf i'n gwybod sut i ddefnyddio peiriant llifanu ongl, torrwr plasma a llif gron. Roedd fy mhrofiadau i gyd yn rhagorol ac rwyf i'n gobeithio y caf i fynd â hyn ymhellach a mynd i weithio gyda metel a gyda gof yn ddiweddarach yn fy mywyd.

Fy marn i am waith gof a gwaith metel yw, ydi mae'n beryglus iawn ond unwaith i chi arfer, byddwch chi'n ei wneud yn hawdd. Rwyf i'n hoffi weldio, torri plasma a llifanu. Rwyf i'n gobeithio y gallaf fynd i faes Peirianneg Cerbydau Modur yn fuan a bydd y sgiliau hyn

yn ddefnyddiol iawn.

Diolch ato am ddysgu'r sgiliau hyn i fi ac rwyf i'n gobeithio eich gweld yn fuan.

Gobeithio y gallech chi fy ngwahodd i unwaith eto i wneud rhagor o waith.

Yn gywir

Daniel (Ysgol Rhydygors)

## 1e. Canlyniadau meddal

Roedd pob un o'r prosiectau'n caniatáu i'r bobl ifanc ddatblygu a chyflawni nifer sylweddol o sgiliau meddal. Casglwyd tystiolaeth gan athrawon, gweithwyr ieuenctid ac artistiaid y prosiect gan ddefnyddio'r un fethodoleg ag a wnaed uchod. Nid oedd pob un o'r meysydd canlyniadau meddal yn cynnwys sylwadau ond mae sampl cynrychioliadol wedi'i chynnwys.

**Cynyddu Cymhelliant – cofnodwyd ar gyfer 14 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Yn gyffredinol mae angen anogaeth a chymorth ar y disgybl hwn i gynnal darn o waith. Roedd y prosiect cerflunio'n arbennig yn dangos gallu'r disgybl i weithio gyda phenderfyniad ac ymrwymiad i gyflawni canlyniad terfynol."* (Athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

*"Dangosodd y disgybl ei ymrwymiad i'r prosiect drwy sicrhau ei fod yn yr ysgol fore Llun mewn pryd i ymuno â'r grŵp oedd yn ymweld â stiwdio'r artist. Roedd hyn yn golygu taith o dair awr ar y trên i gyrraedd yr ysgol erbyn 9am."* (Athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

*"Sesiwn ragorol gyda'r brodyr. Roedden nhw wrth eu bodd yn arbrofi gyda thechnegau caeadu Harris ac roedden nhw'n eu deall yn hawdd. Roedd Josh yn arbennig yn ei hoffi a chanfu ffyrdd i fod yn arbrofol, a'u rhannu gydag Oliver… mae Eli wrth ei fodd yn defnyddio'r DSLR a diflannodd i'r adeilad i chwilio am bethau a gwrthrychau diddorol i'w cofnodi. Roedd yn hapus iawn drwy'r sesiwn ac yn falch i rannu ei wybodaeth gyda'i frodyr … gofynnodd Oliver a Josh sut y gallen nhw barhau â'r gwaith hwn gartref gyda'u iPads / tabledi, felly fe drafodon ni'r apiau a ddefnyddiwyd. Roeddwn i'n teimlo bod hwn yn gam enfawr ymlaen gyda'r grŵp."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Profodd y prosiect gwneud printiau'n foment hynod o arwyddocaol i'r disgybl hwn. Roedd y diwrnod cyntaf yn yr oriel yn hynod o lwyddiannus ac roedd ganddo ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr ail ddiwrnod a'r un olaf. Fodd bynnag golygodd nifer o wahanol amgylchiadau fod yr ail ddiwrnod yn llai cynhyrchiol a chadarnhaol. Cafwyd trafodaeth gyda'r disgybl a thrwy hyn cyrhaeddodd ddealltwriaeth fwy parchus a goddefgar o'r modd y mae angen hunangymhelliant a phenderfyniad ar gyfer cynnal a datblygu syniad. Dyma oedd y trobwynt ac ers hynny mae'r disgybl wedi cydio ym mhob cyfle i archwilio ei syniadau ar draws amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau. Mae hefyd yn gweithio'n annibynnol, gan lunio gwaith yn ei amser sbâr, ac mae'n ymfalchïo*

*wrth ddod â'r gwaith hwn i'r ysgol yn ei bortffolio. Mae'r oriel yn rhan hanfodol o'r profiadau dysgu yn yr ysgol. Mae'n gofyn am gael ymweld â'r oriel pan fydd ganddo amser rhydd ar ddiwedd yr wythnos."* (Athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

**Cynyddu hunanhyder – cofnodwyd ar gyfer 13 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"(Fel rhan o'r Arts Award), penderfynodd y grŵp rannu eu gwybodaeth am y prosesau gwneud printiau drwy drefnu gweithdai i ddysgwyr iau yn yr ysgol. Mae gan (un o'r disgyblion) ethig gwaith rhagorol ac roedd yn hynod o gefnogol i'w grŵp a'r dysgwyr newydd. Roedd yn dangos sut mae ei hyder a'i hunan-barch wedi tyfu drwy gydol y prosiect ac wedi ei chynorthwyo i redeg y gweithdai'n llwyddiannus."* (Adborth athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

*"Roedd Samantha lawer yn fwy hyderus ac yn awyddus i gyfweld â staff yr oriel … Gofynnodd hi a Toni am help gan staff yr Oriel oedd yn siarad Cymraeg wrth gyfieithu eu testun."* (Cofnod yr artist, Conwy / Mostyn prosiect)

*"Roedd Harris yn llawer mwy hyderus ac yn hapus i gymryd rheolaeth o'r camera."* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

**Cynyddu hunan-barch - cofnodwyd ar gyfer 12 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Roedden nhw'n amlwg yn falch o'u modelau ac yn awyddus i'w cofnodi ar gamera'r iPad."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"I'r holl ddisgyblion roedd cyflawni amcan terfynol sylweddol yr oedden nhw'n gallu ymfalchïo ynddo yn gwella eu hyder yn eu galluoedd i ymgymryd â phethau newydd."* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

**Dyheadau personol uwch – cofnodwyd ar gyfer 14 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Yn bendant mae gan Toni ddyheadau i fod yn artist, rhywbeth nad oedd hi'n credu y gallai ei wneud. Mae angen parhau gyda hyn!"* (Cofnod yr artist, Conwy / Mostyn prosiect)

*"Byddwn i'n gobeithio y byddai Josh o ganlyniad i'r prosiect yn sylweddoli bod llawer mwy y gallai ei gyflawni."* (Partner allanol, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Fe bwysleision ni'n glir i'r bechgyn pa mor alluog ydyn nhw a bod llwybrau y tu hwnt i'r llwybr academaidd arferol lle gallan nhw ffynnu. Mae angen dilyn hyn, a byddwn ni'n edrych ar y cyllidebau i weld beth y gellid ei wneud i barhau â chyflymder a 'momentwm' iddyn nhw."* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

**Cyfranogiad cynyddol mewn gweithgareddau cadarnhaol – cofnodwyd ar gyfer 12 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Mae'n bosibl y bydd y merched yn ymuno â grŵp MOSTYN Cylch ac mae Harris eisoes wedi ymuno â MOSTYN Ninjas. Dyw graddfa llwyddiant hyn ddim yn glir eto, ond fy*

*nheimlad yw y bydd angen cymorth ar bob un ohonyn nhw."* (Cofnod yr artist, Conwy / Mostyn prosiect)

**Cynyddu gweithgaredd corfforol – cofnodwyd ar gyfer 5 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

Roedd y mwyafrif o'r prosiectau'n cynnwys rhywfaint o weithgaredd corfforol. Roedd prosiectau Oriel Glynn Vivian yn cynnwys cerdded o gwmpas Abertawe. Roedd prosiect Sir Ddinbych yn cynnwys adeiladu cysgodfan fawr, a nododd yr artist fod hwn yn waith corfforol caled. Nododd artist prosiect Oriel Myrddin fod "*gwaith metel, morthwylio, gofannu llifanu a thorri i gyd yn gorfforol iawn"*

**Teimlo'n fwy cadarnhaol am iechyd meddwl – cofnodwyd ar gyfer 9 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Maen nhw'n wynebu peth ansicrwydd y tu hwnt i'r prosiect; gallaf i ond gobeithio y bydd y prosiect yn dod â rhywfaint o saib iddyn nhw."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Dywedodd Lorna (sy'n dioddef o iselder) fod lluniadu'n ei hatal rhag poeni neu deimlo ei bod angen pethau. Does dim byd arall yn atal hynny ar wahan i luniadu/creu rhywbeth."* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Glynn Vivian / YMCA)

**Lefelau uwch o ymgysylltu / canolbwyntio – cofnodwyd ar gyfer 9 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Roedd yr holl gyfranogwyr yn ymgysylltu drwy'r sesiwn: roedd Samantha'n gweithio tan yr eiliad olaf, a bron i ni orfod ei thynnu drwy'r drws i fynd at ei thacsi!"* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

*"Mae parhau i ganolbwyntio'n heriol i'r disgybl hwn. Cafodd gymorth ychwanegol pan oedd angen, ond cafodd ei hannog hefyd i archwilio ei syniadau'n annibynnol. Roedd yr artistiaid a'r athrawon yn gweithio ochr yn ochr â'r dysgwyr ac yn eu caniatáu i weithio yn yr oriel a'r stiwdio fel artistiaid unigol dan eu cyfarwyddyd eu hunain."* (Adborth athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

*"I Daniel (peiriannydd naturiol) mae'r gweithdai wedi dangos iddo pa mor drefnus, galluog yn dechnegol a chlir ei feddwl mae'n gallu bod pan fydd prosiect yn gweddu iddo. Byddai'n addas ar gyfer prentisiaeth mewn gweithdy metel yn gwneud darnau cynhyrchu ac mae Angharad (y gof) wedi awgrymu hyn iddo. Mae Blue hefyd yn alluog ac yn gallu canolbwyntio mewn tasg glir sy'n cael ei wneud yn gyflym. Mae Aaron yn ddeallus iawn ac wedi dangos ei fod yn gallu goresgyn ei drafferthion emosiynol pan fydd yn gweithio ar brosiect dwys a chorfforol. Amser cinio cafodd frechdan gyflym a pharhau â'r gwaith gofannu i wneud darn ychwanegol i'w gerflunwaith heb unrhyw anogaeth gennym ni. Parhaodd Blue i weithio ar yr efail amser cinio hefyd."* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

*"Gweithiodd Lisa a Dan am ddwy awr ar eu portreadau, a gweithiodd Dan am awr ar ei destun a'r GIF. Treuliodd Lowry y prynhawn cyfan yn arbrofi gyda chyfryngau gwahanol."* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Glynn Vivian / YMCA)

**Sgiliau gwaith tîm – cofnodwyd gwelliannau ar gyfer 15 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Bu Samantha, Topaz a Toni yn cydweithio i gyfweld â staff yr oriel a gwneud gifs syml."* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

*"Roedd Harris mewn hwyliau da pan gyrhaeddodd heddiw a pharhaodd yn hwyliog drwy'r sesiwn. Pan awgrymais y dylai pawb gydweithio ar un ffilm, gofynnodd am gael gweithio ar ei ben ei hun, ond (ar ôl i ni) drafod sut y gallai gymryd amser hir i'w gwblhau ar ei ben ei hun, roedd yn hapus i ymuno."* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

*"Mae defnyddio peiriannau a thaclau mewn gofod stiwdio yn golygu bod angen ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth dda o ofod. Roedd yn aeddfed ac yn amyneddgar gyda'r grŵp cymheiriaid drwy'r amser."* (Adborth gan athro, prosiect Oriel Myrddin / Rhydygors)

*"Roedd y bechgyn i gyd yn cyfarwyddo ei gilydd ac yn ymddangos yn lluniau ei gilydd. Roedd Oliver a Josh yn gweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Roedd Oliver, Josh a Kieran yn fywiog iawn heddiw ac yn awyddus i ddechrau arni. Roedd yn wych gweld gwir frwdfrydedd ynddyn nhw wrth iddyn nhw ddechrau dylunio a chreu. Mae Nicky a Rob (o RAPA) yn wych gyda nhw, gan roi digon o ofod iddyn nhw weithio ar eu pen eu hunain, a chynorthwyo fel bo angen. Dechreuodd Oliver y llithrad amser, gan ddewis ble i osod y camera a chymerodd y bechgyn i gyd ran gyfartal yn cofnodi'r broses adeiladu. Roedd Josh yn enwedig yn mwynhau defnyddio'r camera."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Roedd rhaid i'r bechgyn ddechrau gweithio fel tîm a rhannu'r tasgau rhyngddyn nhw."* (Partner allanol, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

**Gwell perthynas gyda chymheiriaid – cofnodwyd ar gyfer 10 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Gweithiodd y bechgyn i gyd yn anhygoel o dda heddiw, dim ymladd, dim cwympo mas a chynnwys Eli yn y grŵp gan ei fod i ffwrdd yr wythnos ddiwethaf."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

**Gwell parodrwydd ar gyfer addysg uwchradd** – Cymwys i un disgybl yn yr holl brosiectau'n unig, gan fod y lleill eisoes yn yr ysgol uwchradd.

*"Soniodd Harris eto heddiw am ei ddiwrnod pontio a symud i'r ysgol uwchradd*." (Cofnod prosiect yr artist, Conwy / Mostyn)

**Cymhelliant i barhau at y nod a goresgyn trafferthion – cofnodwyd gwelliannau i 14 o'r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*"Roedd Oliver yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd i sicrhau fod ei fodel yn 'gludo'. Parhaodd i ganolbwyntio am amser llawer hirach na'r sesiynau blaenorol ac roedd yn hapus i dderbyn cyngor a chymorth."* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*“Gofynnodd Josh am yr iPad eto ar y diwedd gan ddweud ei fod wedi gweithio allan sut i gael y shot roedd am ei dynnu.”* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*“Mae ymdopi â newid ac unrhyw beth annisgwyl a allai ddigwydd yn heriol iawn i’r disgybl hwn. Roedd yn barod i ‘roi cynnig arni’ a dyna’r ganmoliaeth uchaf i drefnwyr y prosiect.”* (Adborth athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

**Gwell hapusrwydd – cofnodwyd gwelliannau ar gyfer 14 o’r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

Hanner ffordd drwy Brosiect Sir Ddinbych / RAPA, dywedodd ysgol Eli*, “dyw Eli ddim wedi siarad am ddim byd ond am yr hyn bu’n ei wneud yr wythnos ddiwethaf, fe fwynheuodd eu hun yn fawr!”*

*“Roedd yn ddiwrnod heulog unwaith eto: cawsom ni i gyd bicnic, bu’r merched yn crwydro tir Angharad a neidio ar y trampolîn amser cinio, yn ogystal ag ymuno yn y gweithdy, oedd yn gydbwysedd da rhwng hwyl a gwaith.”* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

**Gallu ymdopi yn well / gwell gwydnwch – cofnodwyd ar gyfer 14 o’r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*“Mae Eli i’w weld yn ymdopi’n well gyda thynnu coes gan ei frodyr. Mae Josh yn gofalu am Eli ac yn ei amddiffyn.”* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*“Mae synau uchel yn anodd i’r disgybl hwn ac roedd gweithio yn stiwdio’r artist yn heriol. Aeth yn ei blaen yn benderfynol a rheolodd y sefyllfa drwy gamu allan pan oedd angen a chymryd rhan orau y gallai hi.”* (Adborth athro, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

**Gwell creadigrwydd – cofnodwyd ar gyfer 11 o’r 15 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu**

*“Roedd Harris yn llawer mwy creadigol yr wythnos hon, yn mwynhau ysgrifennu ‘Mostyn is amazing’ ar yr animeiddiad … roedd Harris am gael awyren bapur i hedfan yn ei ffilm. Arbrofodd gydag amrywiol ddulliau a phan nad oedd yn gweithio edrychodd ar ffyrdd eraill i’w wneud yn bosibl.”* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

*“Ymatebodd y grŵp yn dda i weithgareddau’r wythnos hon gan fwynhau tynnu lluniau o’u hunain. Roedd yn wych eu gweld i gyd yn gweithio gyda’i gilydd. Trafodon ni y syniad o greu eu darn eu hunain o waith, ac roedd ganddyn nhw lawer o syniadau ac maen nhw i gyd yn gyffrous am ddechrau arni!”* (Cofnod yr artist, prosiect Conwy / Mostyn)

*“Roedd Oliver yn dod o hyd i bob math o wrthrychau i’w cynnwys yn y gysgodfa; roedd ei syniadau’n llifo.”* (Cofnod yr artist, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*“Dangosodd Felicity a Martha annibyniaeth meddwl a hyder i ymgymryd â phethau newydd … dangosodd Felicity fod ganddi sgiliau technegol a chreadigol y mae’n gallu eu datblygu mewn ffordd unigol. Gwnaeth y grŵp i gyd ddarnau terfynol gwahanol iawn a nhw oedd yn sicrhau’r mewnbwn creadigol a’r penderfyniadau, felly maen nhw’n falch iawn o’r canlyniadau.”* (Cofnod yr artist, prosiect Oriel Myrddin / Canolfan)

*“Er nad yw hi bob amser yn cyflawni ac yn dilyn ei bwriad, mae ei phatrwm o newid syniad neu gynllun yn caniatáu ar gyfer bod yn ddigymell yn aml, ynghyd ag arbrofi a hyblygrwydd sy’n caniatáu i’w syniadau dyfu wrth weithio. Unwaith iddi ddechrau ei gwaith, gweithiodd Jess yn ddiflino, felly gosodon ni animeiddiad llithro amser ar yr iPad i ffilmio ei chynnydd.”* (Cofnod yr artist, Oriel Glynn Vivian / YMCA prosiect)

**Gwell ymddangosiad personol / gweddustra (perthnasol i’r grŵp hŷn yn unig)** – *nodwyd ar gyfer 1 i’r 2 o bobl ifanc a gafodd eu hasesu, ond ni chafwyd enghraifft.*

## 1f. Canlyniadau annisgwyl

**Hyfforddiant Arts Award fel sgil newydd i’w farchnata i artistiaid a sefydliadau**

Mae cwblhau hyfforddiant Arts Award wedi rhoi offeryn gwerthfawr newydd i artistiaid prosiect a sefydliadau ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc. Bydd yr hyfforddiant hefyd yn cynorthwyo artistiaid i gael gwaith cyflogedig yng Nghymru.

**Ehangu’r gwaith gyda phobl ifanc y tu hwnt i oes y prosiect**

Bydd Oriel Myrddin yn ymgymryd â phrosiect arall gyda bechgyn Rhydygors ym mis Medi 2014. Bydd grŵp bach yn creu meinciau i’r ysgol ac yn cyflwyno eu prosiect ar gyfer Arts Award Efydd.

**Roedd gwaith a wnaed ar y prosiect yn gymorth i rai o’r bobl ifanc gyflawni cymhwyster TGAU yn ogystal ag Arts Award**

Bydd y corff o waith a grëwyd gan y bobl ifanc ym mhrosiect Oriel Myrddin yn cyfrannu’n sylweddol at eu cymwysterau TGAU. Doedd gan rai o’r bobl ifanc ddim neu ychydig yn unig o waith celf portffolio cyn y prosiect, ond nawr bydd modd iddyn nhw gwblhau TGAU.

**Ysbrydoli pobl eraill i fod yn Ymgynghorwyr Arts Award**

Gwnaeth effeithiolrwydd Arts Award fel offeryn i ymgysylltu gyda phobl ifanc gymaint o argraff ar Louise Morgan, athrawes Rhydygors / Canolfan, fel ei bod yn awyddus i hyfforddi fel Ymgynghorydd a chyflwyno Arts Award yn ei hysgol.

## 1g. Pwyntiau dysgu

**Sicrhau cymorth digonol yn y sesiwn i’r bobl ifanc ac artist y prosiect**

*“Un wers i’w dysgu fyddai sicrhau bod cynorthwyydd artist ym mhob sesiwn – roedd hyn yn bwysig iawn ac yn rhywbeth a sefydlwyd tua hanner ffordd drwy’r prosiect, ond o edrych yn ôl dylai fod yno o’r dechrau, a’r tro nesaf dylid ei gostio yn y gyllideb. Y tro hwn roedd modd i ni symud elfennau o’r gyllideb i’w drefnu.”* (Rheolwr prosiect, Conwy / Oriel Mostyn prosiect)

**Sicrhau bod swyddogaethau’n cael eu diffinio’n glir o ddechrau’r prosiect**

*"Byddai wedi bod yn dda cael swyddogaethau mwy diffiniedig i'r holl bartneriaid o ddechrau'r prosiect, i bawb gan ddeall eu hymglymiad a'r amser a fyddai ei angen. Mae mewnbwn RAPA, y partner allanol, wedi bod yn uwch na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol, ac mae hyn wedi bod yn ganlyniad dysgu i'r prosiect."* (Cydlynydd y prosiect, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

*"Roedd rhaid i RAPA chwarae rhan lawer mwy ymarferol nag oedden nhw wedi'i ragweld yn wreiddiol, oherwydd natur y prosiect a'r bechgyn … Er bod hyn wedi gweithio'n dda, roedden nhw wedi rhagweld y byddai eu rhan yn y prosiect yn fach iawn unwaith iddyn nhw recriwtio'r bechgyn, a bod ar gael pan fyddai angen. O bersbectif diogelu, bu'n angenrheidiol cael aelodau RAPA yn bresennol ym mhob sesiwn, a hefyd roedd angen cymorth ar yr artist gan bobl oedd â pherthynas dda gyda'r bechgyn er mwyn ennill eu hymddiriedaeth o'r dechrau. Roedd modd iddyn nhw helpu gyda'r elfen greadigol hefyd, sydd wedi bod yn ddwys ac wedi golygu llawer o waith gan bawb a fu'n cymryd rhan."* (Cydlynydd y prosiect, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

**Sicrhau nad oes dyblygu o ran casglu data** drwy sicrhau bod gwerthuso a chasglu data yn cael ei wneud yn unol â'r hyn mae Cymunedau yn Gyntaf, Cyngor y Celfyddydau a phartneriaid eraill ei angen.

**Gwerth cynnal sesiynau blasu cyn y prosiect llawn i ganiatáu i'r bobl ifanc roi cynnig arni cyn ymrwymo i'r prosiect llawn**

*"Rhan hanfodol o'r broses oedd cynnig sesiynau blasu i grwpiau mawr er mwyn canfod y rhai a fyddai'n mynd ymlaen i gwblhau'r prosiectau. Roedd hyn yn heriol ac achosodd rhywfaint o ymddygiad aflonyddgar, ond roedd yn hanfodol er mwyn mesur y diddordeb. Roedd y rhwystrau ar y cyfan yn broblemau unigol oedd gan y bobl ifanc ac yn rhan o'u taith bersonol eu hunain e.e. ofn llefydd newydd, synau uchel, problemau ymddygiad oedd eisoes yn bodoli a llwyddwyd i oresgyn llawer o'r rhain gan y bobl ifanc fel rhan o'r broses o gymryd rhan …*

*Er gwaethaf yr her rydyn ni'n credu bod y sesiwn flasu'n hanfodol. Mae cymorth staff yr ysgol yn hanfodol i gynnal lle diogel i'r bobl ifanc a'u helpu i oresgyn rhwystrau personol. Byddai mwy o hyd a dyfnder i'r prosiectau'n gallu helpu i adeiladu perthynas gyda'r bobl ifanc ac mae dull adfyfyriol a dynamig gan yr artistiaid sy'n cyflwyno yn gallu helpu pobl i oresgyn rhwystrau."* (Rheolwr prosiect, prosiectau Oriel Myrddin, Rhydygors a Chanolfan)

**Sicrhau bod llwybrau parhad / dilyniant yn weithredol ar ddiwedd y prosiect**

*"Mae angen parhad, gan adeiladu ar y gwaith da sy'n cael ei wneud a chydnabod bod y bobl ifanc yn tyfu'n hŷn ac yn symud yn gyflym iawn (gadael yn 16 oed) sy'n cynnig ffenest fer i adeiladu momentwm, ehangu gorwelion a newid canfyddiadau pobl ifanc o'u potensial eu hunain."* (Rheolwr prosiect, prosiectau Oriel Myrddin, Rhydygors a Chanolfan)

## 2. Astudiaethau Achos: Prosiectau unigol a theithiau'r bobl ifanc

## Prosiectau Ymyrraeth Gynnar

### 2a. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn gweithio gydag Oriel Mostyn, Gwasanaethau Ieuenctid Conwy ac Ysgol y Creuddyn

**Partner Arweiniol**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Sian Young, Rheolwr prosiect

Vivienne Rickman-Poole, Artist y prosiect

*"Prosiect gwych – fy ffefryn hyd yma rwy'n meddwl!"*

**Partner allanol**

Gwasanaethau Ieuenctid Conwy, Ysgol y Creuddyn

Marc James, Athro Cynhwysiant

*"Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd yn berffaith â'n nod o greu cysylltiadau gydag asiantaethau yn ein hardal leol a chynnig opsiynau amgen i rai o'n dysgwyr agored i niwed sy'n ei chael yn anodd dilyn cwricwlwm prif ffrwd."*

**Pobl ifanc**

Pedair merch blwyddyn 6: Lena, Samantha (Sami), Toni a Topaz, ac un bachgen, Harris. Daeth Sami, Toni a Harris i sesiynau drwy'r prosiect, a chwblhau gwaith ar gyfer Arts Award.

Cwblhawyd asesiadau dechrau prosiect gan yr ysgol i Sami, Toni a Topaz, ond nid i Lena na Harris. Ni chafwyd asesiadau diwedd prosiect, am fod y prosiect wedi gorffen ar ddiwedd y tymor, ond mae'r rheolwr prosiect yn hyderus y bydd yr ysgol yn darparu gwybodaeth ym mis Medi, gan eu bod wedi bod yn gadarnhaol a chefnogol drwy'r cyfnod.

**Dyddiadau'r prosiect**

14 o sesiynau wythnosol yn Oriel Mostyn – 10 Ebrill tan 17 Gorffennaf 2014. Cynhaliwyd y sesiynau yn ystod y prynhawn am ddwy awr. Cafodd sesiwn hanner tymor mis mai ei ganslo gan nad oedd y bobl ifanc yn gallu dod yr wythnos honno. Cafwyd cofnod yr artist ar gyfer pob sesiwn.

**Lefel Arts Award**

Cwblhaodd tri o'r bobl ifanc Arts Award ar Lefel Explore.

Dolenni at fideos y bobl ifanc:

http://vimeo.com/101914240

http://vimeo.com/100634362

**Crynodeb o'r prosiect**

Roedd hwn yn un o'r prosiectau Ymyrraeth Gynnar i bobl ifanc 11-16 oed (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion), lle'r oedd y plant a'r

bobl ifanc wedi'u dynodi fel bod mewn perygl o ymddieithrio.

Roedd prosiectau Conwy a Sir Ddinbych yn rhannu artist, gan redeg sesiynau bore yn y Rhyl a sesiynau prynhawn yn Llandudno.

Roedd y prosiect yn seiliedig ar ffotograffiaeth, animeiddio a ffilm: edrychodd y grŵp ar animeiddio stop-symudiad, cawson nhw daith o gwmpas yr arddangosfa yn Oriel Mostyn, gwnaethon nhw ganllaw fideo i'r oriel, cyfieithu'r canllaw i'r Gymraeg, gwneud portreadau digidol a chynnal arddangosfa derfynol.

**Llwyddiannau**

Cynyddodd hyder y grŵp wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Dysgodd y bobl ifanc weithio fel tîm, gyda'r merched hŷn yn gofalu am yr aelod iau yn y grŵp.

Roedd y bobl ifanc yn falch iawn o'u harddangosfa derfynol.

*"Roedd gwir gyffro yn yr ystafell wrth i'r sesiwn ddatblygu heddiw gyda phawb yn sgwrsio … dwyf i ddim yn credu bod neb wedi sylweddoli y gallen nhw gynhyrchu gwaith cystal! Oedd i mi'n dangos pa mor werthfawr yw'r digwyddiad dathlu ar y diwedd …*

*Mwynheuodd Harris sgwrsio â staff MOSTYN, oedd yn rhagorol, a daeth y rhan fwyaf ohonyn nhw i weld y grŵp a threulio digon o amser yn gwylio'r gwaith, sgwrsio gyda'r bobl ifanc a rhoi adborth gwirioneddol adeiladol iddyn nhw. Maen nhw'n teimlo'n rhan o'r oriel ac yn cael eu gwerthfawrogi."* (Cofnod yr artist – sesiwn olaf)

**Heriau**

Roedd presenoldeb yn isel yn ystod yr wythnosau cyntaf, ond gwellodd ymhlith y tri aelod craidd wrth i'r prosiect ddatblygu.

Nodwyd materion dyletswydd gofal gan na hysbyswyd artist y prosiect ar y dechrau mai cyswllt cyfyngedig yn unig oedd gan un o'r bobl ifanc gyda'i mam. Cafodd hyn ei ddatrys gyda chymorth yr athro cymorth.

Roedd angen cymorth ychwanegol ar un o'r cyfranogwyr drwy gydol y prosiect; cafodd hyn ei ddarparu gan aelodau o'i deulu.

Roedd aelod o staff Oriel Mostyn yn darparu cymorth ychwanegol yn ystod y sesiynau gweithdy.

**Llwyddiannau'r Bobl ifanc**

Dysgodd y grŵp am elfennau animeiddio stop-symudiad, gwnaethon nhw ganllaw fideo i'r oriel, a chofnodi eu llwyddiannau mewn llyfr cofnodi Arts Award. Datblygon nhw sgiliau TG, llythrennedd a chreadigol, gan weithio'n unigol ac fel rhan o grŵp, datblygu gallu i ganolbwyntio a chymhelliad, a chyfranogi mewn gweithgareddau creadigol, cadarnhaol.

*"Roedd Toni yn fywiog iawn yn ystod y sesiwn yn enwedig wrth fy holi am fy ngwaith, gyda phob ateb newydd roeddwn i'n gweld cwestiwn arall yn cyniwair … roedd yn wych gweld y fath frwdfrydedd!"* (Cofnod yr artist - wythnos 10)

**Astudiaeth achos: Taith Harris**

Harris oedd aelod ieuengaf y grŵp - roedd yn 11 ac roedd y merched yn 15. Roedd yn frwdfrydig am y prosiect o'r dechrau, gan ddweud ar ôl y sesiwn gyntaf a'r ail *"dyma ddiwrnod gorau fy mywyd!"* Roedd ei

bresenoldeb yn dda drwy gydol y prosiect.

Dioddefodd Harris drasiedi teuluol yn ystod y prosiect – yn naturiol effeithiodd hyn ar ei ymddygiad a'i gyfranogiad, ond gyda chymorth ei deulu a thîm y prosiect, roedd yn gallu ailgydio ynddi a chwblhau'r gwaith angenrheidiol ar gyfer Arts Award ar lefel Explore.

*"Roedd Harris i'w weld yn cael trafferth yn y sesiwn heddiw. Roedd ei syniadau yn neidio i bobman ac roedd yn mynd o un peth i'r llall heb fawr o gyswllt rhyngddyn nhw. Roedd yn anodd ei gael i ganolbwyntio; roedd fel pe bai'n ei chael yn anodd deall beth oeddwn i'n gofyn iddo ei wneud. Cymerais i'r cyfle i ddod â'i sesiwn Arts Award i ben pan ofynnodd am gael gwneud rhywbeth arall gan feddwl y gallwn ddod yn ôl ato'r wythnos ganlynol. Mae wedi gorfod ymdopi gyda llawer dros yr wythnosau diwethaf."* (Cofnod yr artist, wythnos 8)

*"Roedd Harris yn llawn cymhelliant yn y sesiwn hon, ac yn mwynhau datrys y broblem o gael ei awyren i hedfan."* (Wythnos 9 – cofnod yr artist)

*"Roedd Harris yn llawer mwy creadigol yr wythnos hon wythnos; roedd wrth ei fodd yn llythrennu 'Mostyn is amazing' yn yr animeiddiad."* (Cofnod yr artist, wythnos 9)

*"Roedd Harris wrth ei fodd yn mynd â'i animeiddiad y tu allan i'r ystafell addysg; roedd yn llawn syniadau ar sut i wneud i'w awyren edrych fel pe bai'n hedfan drwy'r awyr. Roedd yn wych ei weld yn rhyngweithio gyda Tim, cynorthwyydd yr oriel; roedd yn holi llawer am waith (yr artist) Ryan Gander. Sesiwn wych!"* (Cofnod yr artist, wythnos 11)

## 2b. Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda Chymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl (RAPA)

**Partner Arweiniol**

**Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Sir Ddinbych**

Sian Fitzgerald, Rheolwr prosiect

Jo McGregor, Cydlynydd y prosiect

Vivienne Rickman-Poole, Artist y prosiect

Mae'r rhan fwyaf o waith y Gwasanaeth Celfyddydau yn ymwneud â phobl ifanc anodd eu cyrraedd. Roedd y prosiect yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda RAPA a Cymunedau yn Gyntaf. Dyma'r tro cyntaf i'r Gwasanaeth Celfyddydau gyflwyno Arts Award a bydden nhw'n hoffi parhau gyda hyn, yn enwedig gyda Criw Celf, eu grŵp pobl ifanc.

**Partner allanol**

Chymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl (RAPA), rhan o'r Clwstwr

Cymunedau yn Gyntaf

Rob a Nicky, Gweithwyr ieuenctid

**Pobl ifanc**

Tri brawd: Oliver (15), Lawence (14) ac Eli (11); un bachgen arall: Ted (14)

Cafwyd asesiadau dechrau a diwedd y prosiect gan y partner allanol ar y pedwar bachgen.

**Dyddiadau'r prosiect**

15 sesiwn wythnosol – 10 Ebrill tan 31 Gorffennaf 2014. Roedd pob sesiwn bore ar y dechrau'n para rhwng awr ac awr a chwarter, gan ddibynnu ar ganolbwyntio ac ymddygiad y bechgyn, ond wrth i'r bechgyn ymgysylltu fwy gyda'r prosiect roedd modd i'r sesiynau bara hyd at ddwy awr yr un.

Cafwyd cofnod yr artist ar gyfer yr holl sesiynau.

**Lefel Arts Award**

Cwblhaodd y bechgyn ddyfarniad Arts Award ar Lefel Explore.

Darparodd Gwasanaeth Celfyddydau Sir Ddinbych lyfrau cofnodi Arts Award Explore i'r bechgyn. Cynorthwyodd yr artist y bechgyn i gwblhau'r rhain ym mhob sesiwn, gan eu helpu i ganfod cynnwys priodol.

**Crynodeb o'r prosiect**

Roedd y prosiect yn un o brosiectau Ymyrraeth Gynnar Momentum i bobl ifanc 11-16 oed (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion), lle'r oedd y plant a'r bobl ifanc wedi'u dynodi fel bod mewn perygl o ymddieithrio.

Dewiswyd y bechgyn gan RAPA fel bechgyn oed angen cymorth ychwanegol am eu bod yn dechrau mynd i drafferth gyda'r heddlu. Cysylltodd RAPA â'r uned cymorth ymddygiad yn ysgol y bechgyn a chael eu cefnogaeth i'r prosiect. Roedd yr ysgol yn ystyried bod y prosiect yn brofiad cadarnhaol i'r bechgyn, gyda phob un wedi'i asesu yn 'isel i ganolig' yn y mwyafrif o'r meysydd sgiliau caled a meddal.

Yn dilyn sesiynau 'dod i'ch adnabod chi' / blasu, seiliodd artist y prosiect y prosiect ar hoffter y bechgyn o adeiladu deniau, gweithgaredd roedden nhw'n ei fwynhau yn RAPA.

Dysgodd y bechgyn hanfodion animeiddio stop-symudiad gan wneud ffilmiau gyda ffotograffiaeth llithriad amser. Adeiladwyd 'cysgodfan' fawr, ac roedden nhw am ei harddangos mewn amrywiol leoliadau.

Llwyddodd y prosiect i ennyn diddordeb a brwdfrydedd y bechgyn a'u helpu i oresgyn gwahaniaethau a gweithio fel tîm. Erbyn wythnos 7, roedd y bechgyn yn gwbl frwd am y prosiect - i'r graddau eu bod am barhau eu gwaith gartref ar eu iPads; erbyn wythnos 8, roedden nhw'n gweithio 2 awr ar eu hyd, heb fod eisiau mynd adref!

*"Roedd Oliver wedi'i wahardd o'r ysgol a gofynnodd i Josh ofyn a allai ddod. Roedd yn agos iawn, ac i mi roedd y ffaith ei fod am ddod*

*yn wych …*

*Roedd Oliver, Lawrence a Ted yn fywiog iawn heddiw ac yn awyddus i ddechrau arni. Roedd yn wych gweld gwir frwdfrydedd ynddyn nhw wrth ddechrau dylunio a chreu. Mae Nicky a Rob yn wych gyda nhw, gan roi digon o ofod iddyn nhw weithio ar eu pen eu hunain, a chynorthwyo fel bo angen. Dechreuodd Oliver y llithrad amser, gan ddewis ble i osod y camera a chymerodd y bechgyn i gyd ran gyfartal yn cofnodi'r broses adeiladu. Roedd Lawrence yn enwedig yn mwynhau defnyddio'r camera."* (Cofnod yr artist, wythnos 9)

Nododd Cymunedau yn Gyntaf Sir Ddinbych sut roedd y cyfranogwyr wedi mynd yn 'gwbl obsesiynol' am y prosiect – gan weithio'n dda fel tîm a hyd yn oed ysgrifennu cyllideb pedair tudalen yn eu hamser sbâr.

Roedd y bechgyn yn dangos mwy o ddiddordeb a chymhelliant wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Yn y pen draw roedd modd iddyn nhw weithio (yn wirfoddol) heb doriad am y sesiwn ddwyawr lawn, parhau â'u gwaith gartref a dod i mewn am sesiwn ychwanegol ar ddechrau gwyliau'r haf.

*"Roedd Nicky (un o'r gweithwyr cymorth) yn amheus a fyddai'r bechgyn yn dod heddiw, gan fod hon yn sesiwn ychwanegol i ddod â'r prosiect i ben a gorffen y llyfrau cofnodi. Ond cyrhaeddodd pob un yn gynnar ac roeddwn i wrth fy modd, roedd yn destament gwirioneddol i lwyddiant y prosiect (er iddyn nhw ofyn i mi oedd gen i gacennau cyn gynted ag y cyrhaeddais i!!) Roedden nhw mewn hwyliau da ond roedd hi'n wythnos gyntaf y gwyliau ysgol, felly roedd hynny'n ddealladwy. Cwblhawyd y gwaith i gyd ac roedden nhw wrth eu bodd â'r cyfle i ddefnyddio eu cysgodfa i 'chwarae'. Rwyf i'n falch iawn i weld pa mor bell maen nhw wedi dod …"* (Cofnod yr artist, wythnos 15)

Gwaith celf terfynol y bechgyn oedd cysgodfa symudol yn seiliedig ar waith Gregory Kloehn. Roedden nhw am ddangos y gwaith mewn lleoliadau amrywiol er mwyn iddi fod yn oriel fach i bob pwrpas.

**Llwyddiannau**

Datblygu prosiect oedd yn adeiladu ar ddiddordebau'r bobl ifanc:

*"Ar ôl sgwrsio gyda'r llanciau'r wythnos ddiwethaf am y gwaith maen nhw'n ei wneud gyda Nicky o RAPA ar adeiladu deniau … roeddwn i'n teimlo y byddai'n wych annog y grŵp i greu celf ynglŷn â hyn, rhywbeth maen nhw'n amlwg wrth eu bodd ag o … defnyddion ni 'gysgodfeydd' (yr artist) Gareth Griffiths, fel man cychwyn, gan edrych ar wrthrychau canfyddedig a chreu modelau unigol o gysgodfeydd. Roedd y grŵp yn canolbwyntio'n wych drwy'r gweithgaredd ac yn gweithio at wobr o gwpaned o de."* (Cofnod yr artist - wythnos 4)

Gweithio gyda rhywun roedd y bechgyn yn ymddiried ynddo i helpu

sicrhau ymddiriedaeth yr artist yn y prosiect:

*"Er mwyn cyflawni Arts Award mewn cyfnod mor fyr, daeth yn amlwg nad oedd gan Viv yr amser i dreulio wythnosau'n ennill ymddiriedaeth y bobl ifanc … Roedd gan y bechgyn berthynas dda gyda Nicky (o RAPA) eisoes a diddordeb mewn adeiladu cysgodfa, felly sylweddolwyd pe bai Nicky'n gallu bod yn bresennol ym mhob gweithdy a phe bai Viv yn cynllunio'r gweithdai o gwmpas eu diddordeb nhw, byddai'n ennill eu hymddiriedaeth a'u diddordeb yn gynt o lawer ac yn fwy tebygol o'u cael nhw drwy'r Arts Award. Cafwyd trobwynt clir tua hanner ffordd drwy'r prosiect fel y gwelwch yn nodiadau Viv, pan sicrhawyd ymddiriedaeth y bechgyn a chafwyd brwdfrydedd llawn."* (Rheolwr prosiect, prosiect Sir Ddinbych / RAPA)

**Heriau**

Roedd presenoldeb yn bytiog ar y dechrau – yn enwedig yn ystod gwyliau'r Pasg.

Roedd y sesiynau fel y'i cynlluniwyd yn wreiddiol yn rhy hir i'r bechgyn ganolbwyntio.

Roedd y partner allanol yn gefnogol i'r prosiect a'i ganlyniadau i'r bobl ifanc, ond yn teimlo bod angen iddyn nhw wneud mwy o fuddsoddiad amser nag oedd wedi'i gynllunio er mwyn i'r prosiect lwyddo.

I ddechrau roedd y bechgyn yn tueddu i ddilyn ymddygiad y brawd hŷn ond roedd hyn yn llai o broblem wrth iddyn nhw fagu diddordeb yn y prosiect.

**Llwyddiannau'r Bobl ifanc**

Cwblhaodd y pedwar bachgen Arts Award ar Lefel Explore.

Datblygodd y prosiect sgiliau TG, llythrennedd a chelf y bechgyn. Datblygwyd sgiliau TG drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar, rhaglenni ac apiau, gan gynnwys dysgu i olygu ffotograffau; llythrennedd drwy ddyfeisio stori, adrodd hyn drwy fwrdd stori a chofnodi llwyddiannau yn eu llyfrau cofnodi Arts Award. Roedd y sgiliau celf a ddysgwyd yn cynnwys animeiddio stop-symudiad, golygu, technegau ffotograffiaeth llithro amser ac adeiladu strwythur mawr. Roedd y meysydd dysgu meddal yn cynnwys gweithio'n annibynnol ac fel rhan o grŵp, datblygu canolbwyntio, cyfranogi mewn gweithgareddau creadigol, cadarnhaol.

**Astudiaeth achos: Taith Eli**

Eli oedd yr ieuengaf o dri brawd ar y prosiect, ynghyd â phedwerydd bachgen o'r un ysgol. Gwelodd yr artist fod hierarchaeth ymhlith y bechgyn, gydag Eli'n ceisio cymeradwyaeth gan y brodyr hŷn cyn ymgymryd â gweithgaredd ar ei ben ei hun, ac yn aml yn gyff gwawd y lleill. Caniataodd dwy sesiwn heb y bechgyn hŷn (oedd yn sefyll arholiadau) i Eli ymlacio a mwynhau'r prosiect.

*"Roedd Eli mewn hwyliau da … Roedd yn awyddus i archwilio'r Lego a'r ffigurau … ac roedd yn amlwg ei fod am 'chwarae' gyda nhw. Felly fe adawais iddo wneud hynny. Cyflwynon ni'r chwarae i'r set ffotograffau a thynnodd ffotograffau o'r ffigurau yn y straeon roedd yn eu chwarae … Mwynheuodd ddefnyddio'r DSLR, gan ofyn llawer o*

*gwestiynau am sut roedd yn gweithio a sut y gallai wireddu'r hyn oedd am ei wneud … Trafodon ni waith artist sy'n gwneud cysgodfannau i bobl ddigartref yn America a thaniodd hyn ddiddordeb Eli."* (Cofnod yr artist, wythnos 5)

*"Dywedodd Will pan gyrhaeddodd gydag Eli fod yr ysgol wedi dweud nad oedd Eli wedi stopio siarad am yr hyn oedd wedi bod yn ei wneud yr wythnos ddiwethaf, a'i fod wedi mwynhau ei hun yn fawr"* (Cofnod yr artist, wythnos 6)

*"Roedd Eli yn llawn cyffro am fod yn ffilmio'r broses o adeiladu'r den yr wythnos hon. Roedd yn aros i Nicky (o RAPA) ddechrau adeiladu'r den, ond cymerodd yr awenau'n gyflym ac roedd yn falch iawn o'i greadigaeth. Roedd yn awyddus iawn i wylio'r broses llithro amser ac roedd wrth ei fodd yn tynnu lluniau gyda'r iPad, gan arbrofi gyda'r ffordd roedd yn gweithio. Holodd am sesiwn yr wythnos ganlynol, rhywbeth nad oedd yr un o'r llanciau wedi'i wneud o'r blaen."* (Cofnod yr artist, wythnos 6)

Pan ddychwelodd y bechgyn eraill ar ôl eu harholiadau, roedd hunanhyder Eli yn ei allu artistig yn parhau i fod yn uchel. Cynyddodd ei hunanhyder, ei hunan-barch a'i wydnwch drwy gydol y prosiect, a chafodd ei gymell i lwyddo. Gwellodd ei berthynas gyda'i frodyr i'r pwynt lle'r oedden nhw'n gallu cydweithio fel tîm i greu a chofnodi gwaith celf, ac yn bwysicach, roedd y bechgyn hŷn yn gofalu amdano.

*"O'r pedwar bachgen yn y Prosiect rwy'n credu mai Eli gafodd y budd mwyaf … efallai am mai Eli oedd yr aelod ieuengaf o'r grŵp roedd bob amser yn awyddus i brofi ei fod yn gallu llwyddo … Wrth i'r prosiect fynd rhagddo datblygodd ei hunanhyder ac roedd bob amser yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd a chyrraedd targedau newydd."* (Adborth gan RAPA)

## 2c. Oriel Myrddin yn gweithio gydag Uned Cyfeirio Disgyblion Canolfan y Gors

**Partner Arweiniol** **Oriel Myrddin**

Seren Stacey, Rheolwr prosiect

Mary Sikkel, Cydlynydd y prosiect ac Artist y prosiect

Alan Williams, Gwneuthurwr Printiau ac Angharad Pearce Jones, Gof, Artistiaid Arbenigol

**Partner allanol** Canolfan y Gors

Louise Aaron, Athro Celf

Uned Cyfeirio Disgyblion (Uned Dydd) yw Canolfan y Gors i bobl ifanc sydd â phroblemau emosiynol sy'n eu hatal rhag ymdopi neu ddysgu mewn ysgol brif ffrwd. Er enghraifft, efallai fod problemau gartref, gallai'r bobl ifanc fod wedi colli ysgol ac yn methu ymdopi mewn ysgol prif ffrwd, gallen nhw fod yn ddihyder.

Mae Canolfan y Gors ar yr un safle ag Ysgol Rhydygors, partner

prosiect arall Oriel Myrddin, ond does dim cyswllt rhwng y disgyblion yn y ddwy uned.

**Pobl ifanc**

Pedair merch blwyddyn 10 (14-15 oed): Martha, Lizzy, Felicity, a Dani; Un ferch blwyddyn 0 (13 oed): Sari

Cafwyd asesiadau dechrau a diwedd prosiect i'r pedair merch.

**Dyddiadau'r prosiect**

Cynhaliwyd pum sesiwn rhwng 30 Ebrill a 20 May. Cafwyd cofnodion yr artist ar gyfer pob sesiwn.

**Lefel Arts Award**

Cyflawnodd bob un o'r merched ddyfarniad Arts Award ar Lefel Explore.

**Crynodeb o'r prosiect**

Roedd y prosiect yn un o brosiectau Ymyrraeth Gynnar Momentum i bobl ifanc 11-16 oed (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion), lle'r oedd y plant a'r bobl ifanc wedi'u dynodi fel bod mewn perygl o ymddieithrio. Roedd y prosiect yn cynnwys 25 awr o weithdai ymarferol ac ymweliadau â gweithwyr celf proffesiynol.

Roedd pedair elfen i'r prosiect:

- Ymwelodd y bobl ifanc ag Oriel Myrddin i weld yr arddangosfa, deall y swyddogaethau o fewn yr oriel a gweithio ochr yn ochr ag artistiaid i ddatblygu eu gwaith creadigol eu hunain
- Buon nhw'n ymweld â stiwdio artist hefyd, a gweithio gyda gof i ddysgu sgiliau newydd a deall opsiynau gyrfa
- Cynhaliwyd gweithdai ymarferol yn yr ysgol i adfyfyrio ac ehangu ar y profiadau hyn a chreu gwaith celf ar gyfer y cymhwyster Arts Award
- Cyflwynwyd gwaith y bobl ifanc a dathlwyd y llwyddiannau mewn digwyddiad rhannu terfynol

Dechreuodd y prosiect gyda gweithdai gwneud printiadau a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa, ynghyd â gwneud a phaentio cerfluniau bach.

Yn sesiynau tri a phedwar, ymwelodd y merched â'r gof ac artist Angharad Pearce Jones yn ei gweithdy ger Brynaman. Roedd yn brofiad cadarnhaol iddyn nhw i gyd weld menyw mewn rôl annhraddodiadol. Dysgodd y merched sgiliau gwaith metel sylfaenol (torri, weldio, drilio, gofannu) a gwnaethon nhw gerfluniau cydbwyso fel rhan o'u Arts Award.

**Llwyddiannau**

Teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth i gamu allan o fan cyfforddus:

*"Mae synau uchel yn anodd iawn i'r disgybl hwn ac roedd gweithio yn stiwdio'r artist yn heriol iawn. Gwthiodd yn ei blaen a rheolodd y sefyllfa drwy gamu allan pan oedd angen a chymryd rhan yn y ffordd*

*orau y gallai hi."* (Adborth gan athro)

*"Ar adegau roedd y gwaith y tu hwnt i'r hyn oedd yn gyfforddus iddi hi ond parhaodd â'r gwaith a cheisio cuddio ei phryder rhag y grŵp."* (Adborth gan athro)

Gwaith tîm / gofalu am ei gilydd:

*"Roedd lefel uchel iawn o gyfranogiad, oedd yn amlwg yn rhywbeth roedd yr holl grŵp yn ei weld yn ganolog i lwyddiant y prosiect. Roedden nhw bob amser yn ymwybodol pan fyddai rhywun angen ychydig o gymorth ychwanegol, bydden nhw'n gwneud amser i sicrhau eu bod yn ei dderbyn."* (Adborth gan athro)

Cymorth partneriaeth i'r bobl ifanc:

*"Golygodd cefnogaeth ei chymheiriaid, artistiaid a'r athro ei bod yn gallu gwthio ymlaen i gwblhau'r prosiect. Roedd yn brosiect ag iddo lawer o gyfranogwyr gan gynnwys rhieni a staff yn yr ysgol ar wahan i athrawon."* (Adborth gan athro)

Hyblygrwydd:

*"Mae hyn wedi bod yn her gan fod y disgybl yn gosod targedau uchel iddi ei hun ac yn aml mae'n rhwystredig os nad yw'r rhain yn cael eu cyflawni. Mae'r prosiect wedi rhoi sgiliau iddi allu addasu a newid y disgwyliadau cychwynnol i gyflawni diwedd hyblyg ac felly canlyniad cadarnhaol."* (Adborth gan athro)

Cymhelliant:

*"Yn aml wrth i sefyllfaoedd heriol godi yn y cartref gwnaeth y disgyblion yn siŵr eu bod yn mynychu'r ysgol i gymryd rhan yn y prosiect. Arwydd clir o'r gwerth a'r ymrwymiad roedd y disgybl yn ei osod ar y prosiect."* (Adborth gan athro)

Cynorthwyo un disgybl i ymgartrefu yn yr ysgol:

*"Mae Lizzy yn raddol yn dechrau ymgartrefu yn yr ysgol ac mae'r prosiect hwn wedi bod yn gymorth mawr yn hyn o beth."* (Adborth gan athro)

**Heriau**

Roedd y dyddiau yn yr efail yn frawychus i nifer o'r merched, ond roedden nhw'n gallu ymddiried digon yn artist y prosiect a'r gof i oresgyn hyn.

**Llwyddiannau'r Bobl ifanc**

Datblygu sgiliau TG, llythrennedd a chreadigol, gweithio'n annibynnol ac fel rhan o grŵp, datblygu canolbwyntio a chyfranogi mewn gweithgareddau creadigol, cadarnhaol.

*"I Lizzy a Dani roedd y diwrnod (yn yr efail) yn arbennig iawn oherwydd arhoson nhw yno er gwaethaf eu hofn gwirioneddol o sŵn, gwreichion, morthwylio ar yr eingion a thân yr efail. Siaradon ni am bobl sydd â sgiliau gwahanol a bod modd i chi fod yn rhan o rywbeth hyd yn oed os nad ydych chi'n mwynhau'r cyfan. Daethon nhw o hyd i ffyrdd i ymdopi, er enghraifft sefyll yn y drws neu luniadu y tu allan os oedd y cyfan yn ormod o straen."* (Cofnod yr artist, 14 Mai)

*"Dangosodd Felicity a Martha annibyniaeth meddwl gynyddol a*

*hyder wrth ymgymryd â phethau newydd*." (Cofnod yr artist, 14 Mai)

**Astudiaethau Achos:**

Mae Adborth ychwanegol gan yr athrawes Louise Morgan yn dangos yr effaith y cafodd prosiect Momentum ar ddwy o blith y cyfranogwyr.

**Teithiau Sari a Lizzy**

**Taith Sari**

*"Mae Sari yn ddisgybl abl iawn ac mae ganddi ymrwymiad cryf i'w chwrs TGAU mewn Celf a Dylunio. Ymunodd â'r ysgol ddechrau Blwyddyn 10 o ysgol prif ffrwd. Mae problemau pryder gan Sari, sydd wedi effeithio ar ei gallu i gynnal unrhyw bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Ar ôl rhywfaint o drafod roedd Sari'n fodlon cymryd rhan yn y prosiect er ei bod yn hynod o bryderus am weithio gyda phobl newydd.*

*Gadawodd yr ymweliad â'r oriel (Oriel Myrddin) i Sari ddangos ei photensial ac roedd y sylwadau cadarnhaol yn hwb i'w hunan-barch. Roedd ei pharodrwydd i fynychu'r prosiect cerflunwaith yn stiwdio'r artist yn ganlyniad i gefnogaeth ei grŵp cymheiriaid. Dyma'r tro cyntaf i Sari deimlo'n rhan o grŵp ac mae'n rhywbeth sydd wedi parhau i dyfu. Yn dilyn hyn roedd Sari'n gallu ymuno â'r grŵp ar ymweliad â Tate Modern yn Llundain.*

*Mae presenoldeb Sari yn yr ysgol wedi gwella hefyd. Mae canlyniadau terfynol ac ymchwil y prosiect wedi'u hymgorffori ym mhortffolio gwaith cwrs Celf a Dylunio TGAU Sari. Mae ei nodiadau a'i gwerthusiadau'n amlygu'r amrywiaeth o sgiliau newydd mae wedi'u dysgu ac ansawdd uchel ei gwaith. Mae wedi cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn, a gaiff ei adlewyrchu yn ei gradd derfynol ar ddiwedd Blwyddyn 11."*

**Taith Lizzy**

*"Ymunodd Lizzy â'r ysgol ar ôl cyfnod i ffwrdd o addysg prif ffrwd. Mae'n dioddef o bryder ac iselder ac yn cael trafferth ymdopi â phrofiadau a lleoliadau newydd.*

*Roedd hi'n teimlo bod yr oriel yn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol a bu'n gweithio yno'n frwd. Roedd rhan gyntaf y prosiect (yn yr oriel) yn ffactor allweddol i sicrhau bod Lizzy'n teimlo y gallai ymweld â stiwdio'r artist. Roedd ei hymddiriedaeth yn y tîm i'w chefnogi yn hyn o beth yn amlwg.*

*Roedd y peiriannau a'r lefelau sŵn yn y stiwdio yn heriol iawn i Lizzy. Gwnaed darpariaeth iddi weithio'r tu allan. Ymatebodd i'r heriau hyn gan ddangos ei phenderfyniad i gymryd rhan yn y prosiect cyfan orau y gallai.*

*Roedd y prosiect yn brofiad a ryddhaodd ac a rymusodd Lizzy a heb os rhoddodd yr hyder iddi allu ymuno â'r dosbarth ar ymweliad â Tate Modern yn Llundain ar ddiwedd y tymor."*

## 2d. Oriel Myrddin yn gweithio gydag Ysgol Rhydygors, Ysgol breswyl ar gyfer pobl ifanc gydag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol

| | |
|---|---|
| **Partner Arweiniol** | **Oriel Myrddin**<br>Seren Stacey, Rheolwr prosiect<br>Mary Sikkel, Cydlynydd y prosiect ac Artist y prosiect<br>Roedd y prosiect yn cydweithio'n agos gyda phobl ifanc o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf sy'n mynychu ysgol i bobl ifanc ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol yng Nghaerfyrddin, i'w cynorthwyo i aros yn yr ysgol, gwella presenoldeb a chyflawni cymhwyster. |
| **Partner allanol** | Ysgol Rhydygors<br>Louise Aaron, Athrawes Celf<br>Uned Cyfeirio Disgyblion (uned breswyl) yw Ysgol Rhydygors i fechgyn sydd â phroblemau ymddygiad. Roedd yr ysgol wedi cyfranogi mewn prosiectau blaenorol gydag Oriel Myrddin, gan gynnwys Cyrraedd y Nod. |
| **Pobl ifanc** | Dechreuodd chwe bachgen Blwyddyn 10 (14-15 oed) y prosiect ond yn dilyn y sesiynau cychwynnol, tri aeth yn eu blaen: Blue, Aaron a Daniel. Cwblhaodd un o'r dechreuwyr, William, ddigon o waith yn gynnar yn y prosiect i gyflawni Arts Award ar Lefel Explore.<br>Cafwyd asesiadau dechrau a diwedd prosiect ar y bechgyn a gwblhaodd y prosiect llawn. |
| **Dyddiadau'r prosiect** | Cynhaliwyd pum sesiwn rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd mis 2014.<br>Cafwyd cofnodion artist ar gyfer pob sesiwn |
| **Lefel Arts Award** | Cyflawnodd pedwar bachgen ddyfarniad Arts Award ar Lefel Explore.<br>Cofnododd y bechgyn eu cyflawniadau Arts Award ar iPads – roedd yr artist yn teimlo bod hyn yn fwy uniongyrchol i'r bobl ifanc na chwblhau llyfrau log gan eu bod eisoes yn gyfarwydd â'r dechnoleg, a doedd dim angen iddyn nhw ymdrechu i ysgrifennu. |
| **Crynodeb o'r prosiect** |  <br>Roedd y prosiect yn un o brosiectau Ymyrraeth Gynnar Momentum i bobl ifanc 11-16 oed (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion), lle'r oedd y plant a'r bobl ifanc wedi'u dynodi fel bod mewn perygl o ymddieithrio. Roedd y prosiect yn cynnwys 25 awr o weithdai ymarferol ac ymweliadau â gweithwyr celf proffesiynol.<br>Cynhaliwyd sesiynau cyflwyno gyda grŵp llawn o chwe bachgen Blwyddyn 10. Yn dilyn trafodaethau rhwng artist y prosiect a'r athro gadawodd tri bachgen y prosiect ac aeth tri yn eu blaen. Roedd y sesiynau cyntaf yn cyflwyno'r prosiect a'r Arts |

Award, yn gyfle i'r bechgyn weld Oriel Myrddin (doedd dim un wedi bod i oriel o'r blaen) ac edrych ar dechnegau gwneud printiau.

Roedd y sesiynau dilynol yn cynnwys:

- Ymweliadau â stiwdio artist, a'r cyfle i weithio gyda gof i ddysgu sgiliau newydd a deall opsiynau gyrfa
- Gweithdai ymarferol yn yr ysgol i adfyfyrio ac ehangu ar y profiadau hyn a chreu gwaith prosiect ar gyfer cymhwyster Arts Award
- Cyflwynwyd gwaith y bobl ifanc a dathlwyd eu llwyddiant mewn digwyddiad rhannu terfynol

Yn y bedwaredd sesiwn, dechreuodd y tri bachgen oedd ar ôl ddysgu sgiliau gwaith metel (torri, weldio, drilio a gofannu) gydag Angharad Pearce Jones) yn ei gweithdy ger Brynaman a gwnaethon nhw gerfluniau cydbwyso fel rhan o'u Arts Award.

## Llwyddiannau

Datblygu ymrwymiad i'r prosiect mewn amgylchiadau anodd:

*"Mae gan y tri bachgen fywydau cymhleth gyda phwysau enfawr arnyn nhw. Mae cael gwybod ychydig mwy am hyn yn tanlinellu mor bwysig yw diwrnod fel heddiw (yn yr efail), lle mae modd iddyn nhw deimlo eu bod yn cyflawni ac yn falch. Mae hefyd yn tanlinellu ei fod yn amhosib i chi ddisgwyl y bydd pob dydd yn gweithio'n wych, ond ei fod yn werth ddyfalbarhau ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n dda."* (Cofnod yr artist, 13 May)

Defnyddio sesiynau blasu i ddynodi'r bobl ifanc oedd â'r penderfyniad a'r ymrwymiad i gyfranogi yn y prosiect:

*"Mae lleihau'r grŵp wedi helpu i greu dynameg llawer gwell. Roedd amgylchedd gweithdy gydag offer, cyfarpar a thasgau gwbl strwythuredig yn teimlo'n amgylchedd naturiol i'r bechgyn lle'r oedden nhw'n gallu dangos eu sgiliau heb golli sylw. Roedden nhw'n gallu dechrau gweld cysylltiad rhwng sgiliau ymarferol a gwaith/gyrfa*." (Cofnod yr artist, 13 May)

Datblygu sgiliau llythrennedd:

*"Roedd y disgybl yn rhyngweithio gyda'i grŵp cymheiriaid yn gadarnhaol gan ddangos elfennau o ddeall ac empathi i ddysgwyr eraill. Cyflwynodd ei PowerPoint i weithiwr ieuenctid yr ysgol ar ddiwedd y prosiect."* (Adborth gan athro)

Datblygu diddordeb mewn sgil newydd a sylweddoli y gallai fod yn yrfa:

*"Mae gweithio gyda metel yn bwysig iawn i'r person ifanc hwn. Mae ei dad-cu'n of ac mae ei atgofion cynnar o weld ac arogli pethau yng ngweithdy ei dad-cu'n fyw iawn o hyd. Mae wedi bod yn bleser gweld y mwynhad a'r balchder yn y person ifanc hwn. Bydd yn ymweld â'r*

*V&A yn nhymor yr hydref gyda ffeil ymchwil â'r nod o barhau â'i brosiect cerflunio gyda metel a phren."* (Adborth athro)

**Heriau**

Presenoldeb, unwaith eto i bobl ifanc â bywydau anhrefnus:

*"Bydd yn her fawr i Aaron ddod i'r sesiwn nesaf ddydd Llun oherwydd dyw e ddim fel arfer yn dod i'r ysgol tan ddiwedd y prynhawn ar ddydd Llun. Gobeithio bydd ein hanogaeth a'i frwdfrydedd yn parhau dros y penwythnos."* (Cofnod yr artist, 13 Mai)

(DS: Fe DDAETH Aaron i'r sesiwn nesaf!)

**Llwyddiannau'r Bobl ifanc**

Datblygu sgiliau TG, llythrennedd a chreadigol, gweithio'n annibynnol ac fel rhan o grŵp, datblygu canolbwyntio a chyfranogi mewn gweithgareddau creadigol, cadarnhaol.

**Astudiaeth achos: Taith Aaron**

Mae adborth ychwanegol gan yr athrawes Louise Morgan yn dangos effaith prosiect Momentum ar un o'r bechgyn.

*"Disgybl preswyl yn yr ysgol yw Aaron. Mae'n ddisgybl abl iawn ond mae'n cael trafferth dod o hyd i gymhelliant a chynnal ei syniadau. Mae'n gweithio'n dda yn y gwersi Celf a Dylunio ac yn astudio am TGAU yn y pwnc.*

*Mae gan Aaron agwedd gadarnhaol iawn at gyfarfod â phobl newydd ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd. Roedd y prosiect hwn yn gyfle delfrydol i Aaron weithio y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol mewn lleoliad newydd gydag artistiaid a darparwyr oedd yn gefnogol ac nad oedden nhw'n adnabod y cyfranogwyr o flaen llaw. Roedd yn ddechrau newydd. Yn fwyaf arwyddocaol roedd y tu allan i'r ysgol ac roedd yn rhan bwysig iawn o sicrhau bod Aaron yn cael profiadau dysgu cadarnhaol â ffocws a diben.*

*Byddai Aaron (yn dychwelyd) i'r ysgol ar fore Llun (pan oedd y prosiect ar waith) yn awyddus i gymryd rhan yn y prosiect. Dangosodd lefel uchel o sgiliau gyda metal yn stiwdio'r artist. Daeth i'r amlwg fod cyswllt agos gan deulu Aaron â gweithio gyda metel. Mae prosiect y cerflun wedi dangos fod Aaron yn abl iawn yn y cyfrwng hwn ac mae'n rhywbeth y mae'n awyddus iawn i barhau i'w ddatblygu.*

*Cwblhaodd Aaron waith a ffeiliau ymchwil sy'n rhan o'i bortffolio gwaith cwrs TGAU. Gydag ymrwymiad parhaus i'r pwnc, bydd yn sicrhau gradd uchel yn y cymhwyster hwn."*

## 3. Astudiaethau Achos: Prosiectau unigol a theithiau'r bobl ifanc

### Prosiectau Ymgysylltu ag Ieuenctid

## 3a. Oriel Glynn Vivian yn gweithio gyda YMCA Abertawe

| | |
|---|---|
| **Partner Arweiniol** | **Oriel Glynn Vivian**<br>Tom Goddard, Rheolwr prosiect ac Artist Arweiniol<br>Anna Barratt a Dan McCabe, Artistiaid prosiect<br>Mae Oriel Glynn Vivian ar gau ar hyn o bryd i'w atgyweirio, ond mae'n rhedeg prosiectau oddi ar y safle yn ystod y cyfnod hwn. Ffurfiodd Momentum ran o arlwy dysgu a datblygu cynulleidfa barhaus yr oriel yn ystod y cyfnod pan oedd ar gau. |
| **Partner allanol** | YMCA Abertawe |
| **Pobl ifanc** | 15 o bobl ifanc, rhwng 15 a 26 oed. Roedd rhai sesiynau'n cynnwys hyd at bum person ifanc, ond roedd eraill gydag un neu ddau. Roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc wedi profi salwch meddwl neu roedd ganddyn nhw broblemau cymdeithasol eraill.<br>Cafwyd asesiadau diwedd prosiect ar gyfer Lorna a Stephanie yn unig, ond dywedodd gweithiwr ieuenctid y YMCA "*Mae hwn wedi bod yn brosiect gwych a dydyn ni ddim wedi gweld dim byd tebyg i'r newid yn y ddwy ferch.*"<br>Unwaith i'r prosiect gael mynychwyr rheolaidd roedd modd i'r cyfranogwyr gysylltu ag un o staff yr oriel a dod i weithio pryd bynnag oedd y gofod yn rhydd, gan ganiatáu hyblygrwydd a pherchnogaeth o'r prosiect. |
| **Dyddiadau'r prosiect** | Cynhaliwyd 15 o sesiynau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2014. Cynhaliwyd y sesiynau ar ddyddiau Mawrth ac Iau, rhwng 10am a 4.30pm, ond roedd y bobl ifanc yn gallu galw heibio a doedd dim rhaid iddyn nhw aros am y cyfnod cyfan. |
| **Lefel Arts Award** | Gweithiodd wyth o bobl ifanc at ddyfarniad Efydd Arts Award, gyda chwech yn ei gyflawni.<br>Mae Safonwr Arts Award wedi argymell y dylid cydnabod bod y modd y cyflwynodd yr Oriel Arts Award yn rhagorol. |

**Crynodeb o'r prosiect**

Y ddau brosiect Oriel Glynn Vivian yw'r unig ddau yn ffrwd Ymgysylltu ag Ieuenctid Momentum engage Cymru. Mae'r ffrwd Ymgysylltu ag Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed sydd wedi'u dynodi'n NEET ac ymhlith yr anoddaf eu cyrraedd.

Mae'r rheolwr prosiect a'r prif artist, Thomas Goddard yn disgrifio'r prosiect:

*"Mae Oriel Glynn Vivian ar gau ar hyn o bryd felly cynhaliwyd sesiynau yn yr YMCA. Oherwydd anawsterau a chefndiroedd anodd y cyfranogwyr cafodd y prosiect ei ailgyflwyno sawl tro wrth i aelodau newydd ymuno. Roedd hyn yn dilyn fformat tebyg bob tro: cyflwyniad i Arts Award, artistiaid yn rhannu eu gwaith a phrofiad allanol fel ymweliad ag oriel neu daith gerdded yn Abertawe (i weld celf gyhoeddus neu i weld y ddinas o ben tŵr i roi persbectif newydd i'r bobl ifanc o'u dinas). Roedd y cyflwyniad yn cael gwared ag unrhyw gysylltiadau negyddol â'r ysgol ac roedd yn helpu'r artistiaid i sicrhau cydraddoldeb gyda'r bobl ifanc, gan eu hintegreiddio yn y grŵp.*

*Wrth i'r sesiynau fynd rhagddynt, dechreuodd y bobl ifanc archwilio eu diddordebau eu hunain. Parhaodd rhai ag animeiddio GIF tra bo eraill yn arbrofi gyda phortreadau neu bwytho creadigol. Roedd yr holl bobl ifanc a ymgeisiodd am Arts Award yn defnyddio cyfryngau digidol i greu ffilmiau mewn genres gwahanol. Roedd gan bob person ifanc rwystr iaith ac ysgrifennu, felly gwnaed pob ymdrech i gyd-destunoli eu gwaith o fewn gwaith artistiaid hanesyddol a chyfoes. Roedd natur agored fframwaith Arts Award yn golygu bod modd i'r grŵp greu paentio, ffilm, cerfluniau a chyhoeddiad.*

*Gan fod mynediad y cyfranogwyr i'r grŵp yn gyfnodol, sicrhaodd yr artistiaid prosiect eu bod yn cael cyfle i brofi un o'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd celf oedd gan Abertawe ac orielau eraill i'w cynnig. Roedd hyn yn golygu bod rhai unigolion yn gweld arddangosfeydd ar eu pen eu hunain ac mewn grŵp. Ceisiodd y prosiect gyflwyno'r grŵp i sefydliadau addysg uwch yn ogystal â gofodau masnachol a dan reolaeth artistiaid. Roedd y profiad cyffredin hwn yn caniatáu i athrawon ganfod cryfderau a gwendidau'r unigolion a theilwra'r prosiect â'r nod o chwalu rhwystrau at greadigrwydd, a'u galluogi i weld llwybr(au) drwy addysg uwch yn y celfyddydau.*

*Drwy'r prosiect gweithiodd y grŵp ar sut i gynllunio eu hastudiaethau penodol eu hunain. Gwnaethon nhw benderfyniadau ar sut i symud syniadau yn eu blaen a dethol dulliau ac agweddau artistig i'w dysgu.*

*Roedd gan unigolion yn y grŵp amrywiaeth eang o broblemau personol oedd yn eu heffeithio o ddydd i ddydd. Roedd amrywiaeth o lefelau ynni felly roedd rhai'n gweithio'n well yn y bore heb drafferth*

*tra bo eraill yn gorfod paratoi at weithio drwy drafod ac adolygu. Drwy gydol y prosiect wrth i ddealltwriaeth o'r anghenion unigol ddatblygu, datblygwyd strategaethau penodol i sicrhau bod y sesiynau'n caniatáu'r profiad gorau i bob person ifanc."*

**Llwyddiannau**

- Derbyniodd dau o'r bobl ifanc gynigion diamod i fynychu cwrs celf sylfaen o ganlyniad i'r gwaith a gynhyrchwyd yn y gweithdai.
- Symudodd un cyfranogwr yn ôl i fyw gyda'i rhieni ar ôl bod yn ddigartref.
- Roedd cyfranogwr arall yn gallu dechrau edrych ar ffyrdd o fynegi ei emosiynau drwy gelf ar ôl dioddef problemau rheoli dicter yn flaenorol.
- Cyfradd llwyddo o 75% yn yr Arts Award a 25% yn mynd ymlaen i gyrsiau addysg bellach mewn Celf a Dylunio

- Dyfarnwyd statws 'Canolfan Ragoriaeth' i'r Oriel gan Arts Award am y modd y cyflwynwyd y rhaglen
- Mae Lorna bellach yn aelod o Black Kettle Collective, grŵp pobl ifanc Oriel Glyn Vivian, felly mae'n ymgysylltu â rhaglen yr Oriel yn rheolaidd.

**Heriau**

Presenoldeb gwael: bu'n rhaid ailddechrau'r prosiect ar 13 Mai, gan fod presenoldeb wedi edwino o chwech i un, ond ni ddaeth neb ar y diwrnod ail-lansio.

Diffyg cefnogaeth gan Wasanaethau Ieuenctid Abertawe a chyfathrebu gwael gan Cymunedau yn Gyntaf. Cysylltodd artist y prosiect â thros 60 p swyddogion ieuenctid yn Abertawe, ond roedd yn dal i gael trafferth recriwtio pobl ifanc.

Gallai amseru'r sesiynau fod wedi effeithio ar y presenoldeb ar ddechrau'r prosiect: roedd y gweithwyr ieuenctid yn teimlo ar y dechrau na fyddai pobl ifanc yn mynychu prosiect bore/dydd ac y dylid ei redeg gyda'r nos. Drwy redeg y sesiynau yn ystod y dydd dros fisoedd yr haf, fodd bynnag, roedd pobl ifanc anodd eu cyrraedd oedd wedi dieithrio o addysg brif ffrwd yn gallu datblygu trefn ddyddiol gadarnhaol.

**Llwyddiannau'r Bobl ifanc**

Dangosodd Dan ddiddordeb gwirioneddol a gallu mewn celf ac ymarfer creadigol. Siaradodd yr artist-diwtor Dan McCabe â Dan ynglŷn â dilyn hyn yn y dyfodol o bosibl.

**Astudiaeth achos: Taith Lisette**

*"Clywodd Lisette… am y prosiect ddrwy'r ymgyrch farchnata. Trafodais y gwaith roedd pawb wedi'u gynhyrchu ar y pwynt hwnnw a dangos rhai o'r fideos o wefan arts award i'w chyflwyno i strwythur y prosiect… gofynnais iddi edrych drwy'r llyfrau yn y llyfrgell i ddod o hyd i rywbeth i'w diddori. Dewisodd lyfrau a chyfrolau comig / nofelau graffig, proses yr artist, a hen ddarluniau o gloriau llyfrau sci-fi a theithio'r gofod, felly gofynnon ni iddi ddechrau drwy fraslunio rhai o'r llyfrau, gyda'r nod o roi cynnig ar ddeunyddiau a thechnegau gwahanol. Mynegodd ddiddordeb mewn lliwio'r darlun fel roedden nhw'n ei wneud mewn nofelau graffig felly esbonion ni y gallem ni ddefnyddio ap ar yr iPad i wneud hynny'n ddiweddarach ar ôl iddi hi gynllunio rhywbeth." (Cofnod yr artist, 10 Mehefin)*

*"Dychwelodd Lisette o'i chyfweliad Sylfaen â gwen – y tro cyntaf bron i ni weld hynny, wrth iddi ddweud iddi gael cynnig lle diamod ar y cwrs ym mis Medi…*

*Mae'r gwaith sydd wedi'i osod i Lisette ei wneud dros yr haf ar gyfer y cwrs Sylfaen yn cyd-fynd â'r gwaith mae'n ei wneud ar gyfer Arts Award. Mae angen iddi wneud ei brwshys ei hun a llyfr braslunio erbyn dechrau'r cwrs ym mis Medi. Gallwn edrych ar rwymo llyfrau gyda'i chomic, a bydd y sgiliau y bydd yn dysgu yn gallu trosglwyddo i'w phrosiect dros yr haf. Ein nod nawr yw sicrhau cymorth a sgiliau iddi fydd yn sicrhau ei bod yn gallu gweithio'n effeithiol yn y dyfodol, a gwneud y gorau o'r cyfle hwn sydd wedi'i gynnig iddi."* (Cofnod yr artist, 30 Mehefin)

## 3b. Oriel Glynn Vivian yn gweithio gyda Foyer, preswylfa i bobl ifanc ddigartref yn Abertawe

**Partner Arweiniol**

**Oriel Glynn Vivian**

Tom Goddard, Rheolwr prosiect ac Artist Arweiniol

Anna Barratt a Dan McCabe, Artistiaid prosiect

Mae Oriel Glynn Vivian ar gau ar hyn o bryd i'w atgyweirio, ond mae'n rhedeg prosiectau oddi ar y safle yn ystod y cyfnod hwn. Ffurfiodd Momentum ran o arlwy dysgu a datblygu cynulleidfa barhaus yr oriel yn ystod y cyfnod pan oedd ar gau.

**Partner allanol**

Foyer, prosiect i bobl ifanc ddigartref yn Abertawe

Emma Lacey, Rheolwr

*"Mae staff Foyer yn awyddus i greu cysylltiadau gyda Glyn Vivian – oherwydd eu bod yn agos, ond yn bwysicach, gwerth gweithio gyda phobl ifanc yn Foyer. Esbonion ni'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr oriel a'r adran addysg."* (Cofnod yr artist, 26 Mehefin)

**Pobl ifanc**

12 o bobl ifanc

Roedd presenoldeb yn amrywio. Doedd dim pobl ifanc mewn rhai sesiynau, tra bo hyd at bump mewn eraill. Roedd gan o leiaf saith o breswylwyr gyswllt â'r prosiect.

**Dyddiadau'r prosiect**

Cynhaliwyd y sesiynau ar brynhawniau lau rhwng 2 a 5pm, er bod rhai'n fyrrach, gan ddibynnu ar sylw'r bobl ifanc.

Cafwyd tri chofnod artist, er bod sesiynau eraill wedi'u cynnal.

**Lefel Arts Award**

Ddim yn gymwys i'r prosiect hwn, er bod yr artist arweiniol yn teimlo ei fod o fewn gallu nifer o'r bobl ifanc i gyflawni Arts Award ar lefel Efydd, a bydd yn ceisio gwneud hyn yn yr hydref.

**Crynodeb o'r prosiect**

Y prosiect hwn oedd yr ail yn y ffrwd Ymgysylltu ag Ieuenctid o blith prosiectau Momentum engage Cymru i bobl ifanc 16-18 oed, sydd wedi'u dynodi'n NEET ac ymhlith yr anoddaf eu cyrraedd.

Gwnaeth y bobl ifanc ffilm am Foyer:

*"Yn Foyer mae diwylliant o 'nhw a ni' rhwng y staff a'r bobl ifanc. Dyna pam y penderfynodd y bobl ifanc droi'r camera ar Foyer a'r hyn sy'n digwydd yno ar ffurf dogfen fel prosiect."* (Adborth diwedd prosiect gan reolwr y prosiect)

Hefyd cawson nhw brofiad o animeiddio stop-symudiad a gwneud bandiau 'loom'.

Roedd yr holl weithgareddau'n dod o syniadau'r bobl ifanc.

**Llwyddiannau**

Adeiladu sylfaeni partneriaeth newydd: er bod heriau sylweddol gan y prosiect, byddai rheolwyr Foyer a thîm Oriel Glynn Vivian yn hoffi parhau i gydweithio.

*"Yn y pen draw rydym ni'n bwriadu parhau i redeg y prosiect yn rheolaidd a dod yn rhan sefydlog o'u hamserlen ac efallai gynnig rhywfaint neu'r cyfan o'r uchod. Yr elfennau cadarnhaol i Foyer yw bod y cyfleusterau ganddyn nhw – ystafell benodol, Wi-Fi, cyfrifiaduron ac ati… felly rydym ni wedi gallu gweithio gyda nhw. Mae Foyer hefyd y drws nesaf i adeilad Glynn Vivian ac rydym ni'n teimlo bod hwn yn brosiect pwysig i sicrhau newid sylweddol yn nyfodol y Ddinas."* (Adborth gan y Rheolwr prosiect, prosiect Oriel Glynn Vivian / Foyer)

**Heriau**

Roedd camddefnydd o gyffuriau ac alcohol, nosweithiau hwyr a diffyg sefydlogrwydd personol a theuluol yn cyfrannu at heriau'r grŵp.

Yn ogystal nid oedd y bobl ifanc yn gyfarwydd â chymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu, felly roedd eu presenoldeb yn amrywiol. Ambell waith byddai'r artistiaid prosiect yn cyrraedd i gynnal sesiynau ac ni fyddai unrhyw bobl ifanc yn dod yno, er iddyn nhw ymrwymo i fod yno yn y sesiwn flaenorol.

**Llwyddiannau'r**

Cafodd y bobl ifanc brofiad o wneud ffilmiau a golygu, animeiddio

**Bobl ifanc**

stop-symudiad a gwneud bandiau ‘loom’. Trafodon nhw’r hyn roedden nhw’n hoffi ei wneud a chyfranogi mewn gweithgaredd cadarnhaol.

Links to prosiect animated gifs and video:-